**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

# SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00 a.m. DYDD IAU, 20 MEHEFIN 2013**

**10.00 a.m. THURSDAY, 20 JUNE 2013**

Lleoliad / Location

**SIAMBR DAFYDD ORWIG**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

**: GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

Dosbarthwyd: 12.05.13

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
## SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

**AELODAETH / MEMBERSHIP (18)**

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr / Councillors

Huw Edwards
Chris Hughes
Linda Ann Wyn Jones
Dyfrig Siencyn
Alan Jones Evans
Elin W. Jones
Liz Saville Roberts
Ann Williams
Hefin Williams

### Annibynnol / Independent (5)

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen
Beth Lawton
Eirwyn Williams
Elfed Williams

### Llais Gwynedd (3)

Alwyn Gruffydd
Llywarch Bowen Jones
Peter Read

### Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG / CO-OPTED MEMBERS:**

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig /

With a vote on education matters only

Y Parchedig / Reverend Robert Townsend
Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales

Mrs Rita Price
Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church

Mr Dylan Davies
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd / Representative for Meirionnydd Parent Governors

Mr John Fraser Williams
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Arfon / Representative for Arfon Parent Governors

Ms Rhian Roberts
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor / Representative for Dwyfor Parent Governors

R H A G L E N

1. **ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013/14.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013/14.

3. **YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. **MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. **COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2013.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn)**

7. **YMCHWILIAD CRAFFU – GOFAL CARTREF**
***Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams***

10.10 am – 11.00 am

I ystyried sefydlu Ymchwiliad Craffu i ymchwilio i ddarpariaeth Gofal Cartref preifat a chyhoeddus.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyrdd)**

8. **GOFAL YSBAID**
***Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams***

11.00 am – 11.45 am

I ystyried adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal ynglŷn â gofal ysbaid drwy'r Sir.

(Copi'n amgaeedig – papur **melyn)**

**9.** **DRYLL Y CAR, AERMAW**
***Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams***

11.45 am – 12.30 pm

I ystyried adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal ar effaith cau Dryll y Car, Abermaw.

(Copi'n amgaeedig – papur **glas)**

**10.** **ADOLYGIAD A GWERTHUSIAD O BERFFORMIAD BLYNYDDOL 2011-2012 – AGGCC**
***Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams***

12.30 pm – 1.15 pm

I dderbyn adroddiad cynnydd gan yr Aelod Cabinet Gofal ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – Papur **hufen**)

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
# 11.04.13

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorydd Peter Read – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr: Alwyn Gruffydd, Christopher Hughes, Elin Walker Jones, Beth Lawton, Liz Saville Roberts, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Wyn Williams, R. Hefin Williams a Selwyn Griffiths (aelod ex-officio).

**Undebau Athrawon:** Siôn Amlyn (NASUWT), Dilwyn Hughes (UCAC)

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Siân Gwenllian (Addysg)
Y Cynghorydd R H Wyn Williams (Gofal)

**Swyddogion:** Dafydd Lewis (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Wyn Hughes (Rheolwr Ymgysylltu), Dafydd Owen (Rheolwr Comisiynu), Ann Lloyd Jones (Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd),Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Huw Edwards, Alan Jones Evans, Linda A. W. Jones, Llywarch Bowen Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, a Dyfrig Siencyn, Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru), Mr Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Mrs Rhian Roberts fuddiant personol yn Eitem 5 – Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg oherwydd ei bod yn gweithio i Gyrfa Cymru. Roedd yr aelod o'r farn nad oedd y buddiant yn rhagfarnu ac o'r herwydd ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

## 2. COFNODION

(a) Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2013 fel rhai cywir.

(b) Nododd y Cynghorydd Ann Williams nad oedd wedi derbyn ymateb gan y Gyfarwyddwraig Statudol Cymdeithasol ynglŷn ag ymholiad a ddeilliwyd o gofnodion y cyfarfod diwethaf sef pwynt 4 (p) ynglŷn â'r bylchau sylweddol sy'n parhau o safbwynt hyfforddiant Lefel 2 i staff a rheolwyr yn y Gwasanaeth Ieuenctid.

Sicrhaodd yr Aelod Cabinet y byddai'n cysylltu â'r Gyfarwyddwraig Statudol Cymdeithasol i drefnu iddi gysylltu â'r Aelod yn ddi-oed.

## 3. YMCHWILIAD CRAFFU ANSAWDD ADDYSG

Cyflwynwyd adroddiad gan Swyddog Arweiniol yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg yn diweddaru'r Pwyllgor o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni gan yr Ymchwiliad a'r hyn sydd angen i'w barhau.

(a) Atgoffwyd y Pwyllgor o bwrpas yr Ymchwiliad, yn unol â chais gan yr Aelod Cabinet Addysg, ydoedd canfod :

(i) Pam bod pegynnu yn digwydd ym mherfformiad CA4 ysgolion?
(ii) Safonau cyflawniad mewn Mathemateg ac effaith hynny ar y dangosydd TL2+
(iii) Pam bod ansawdd safonau a darpariaeth CA3 yn gyffredinol gadarn ar draws ysgolion yr awdurdod?
(iv) Meithrin dealltwriaeth lawnach o berfformiad dysgwyr prydau ysgol am ddim a'r graddau y mae cyflawniad y grŵp o ddysgwyr yn effeithio ar berfformiad CA4
(v) Perthnasedd mesur prydau ysgol am ddim i adnabod amddifadedd gwledig
(vi) Effaith arweinyddiaeth ar berfformiad ysgolion a'r modd y caiff sgiliau arwain a'u meithrin a'u datblygu.

(b) Ymhelaethodd y Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd ar y gwaith a gyflawnwyd hyd yma gan yr Ymchwiliad Craffu gan nodi eu bod oddeutu hanner ffordd drwy'r gwaith a bod cryn waith eto i'w gwblhau. Eglurwyd y bu i'r Ymchwiliad ddeall a dadansoddi data ynghyd ag adnabod tri chategori gwahanol o ysgolion uwchradd i'w craffu yng nghyd-destun perfformiad Cyfnod Allweddol 4. Nodwyd bod y rhan cyntaf o'r gwaith wedi ei gwblhau a bod gwaith i'w barhau ar yr ail a'r drydedd ran sef herio ar lawr gwlad, cwrdd ag arbenigwyr annibynnol yn y maes, cyn symud ymlaen i lunio argymhellion i'r Aelod Cabinet Addysg ac i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau erbyn 3 Hydref 2013.

(c) Nododd y Cynghorydd Liz Saville Roberts sydd yn gwasanaethu ar yr Ymchwiliad Craffu mai 55% o ddisgyblion y Sir sydd yn cyrraedd trothwy lefel 2+ (sef ennill 5 TGAU A* - C gan gynnwys Mathemateg, Cymraeg neu Saesneg). Golygai hyn felly bod hanner arall plant y Sir yn methu ac yn bersonol roedd yr Aelod o'r farn onid ddylid gosod disgwyliadau uwch yng Ngwynedd sef y dylai perfformiad trothwy lefel 2+ gynnwys y ddwy iaith yn gyfartal sef Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg. Nodwyd hefyd nad yr ieithoedd sydd yn dylanwadu ar berfformiad y Sir ond canlyniadau Mathemateg.

(ch) Teimlai'r Ymchwiliad Craffu bod lle i godi disgwyliadau o ran y dangosydd trothwy lefel 2+ ac ni ellir ei ddatrys yn y flwyddyn olaf yn yr uwchradd a bod rhaid datblygu o'r sector cynradd i fyny i'r uwchradd. Drwy gynnal cyfweliadau â Phenaethiaid Ysgolion, roedd yr Ymchwiliad Craffu wedi gweld arferion da a hynny ar ffurf sustemau tracio a nodwyd pwysigrwydd i'r sustem tracio fodoli rhwng y sector cynradd a'r uwchradd. Roedd dangosydd prydau ysgol am ddim yn flaenoriaeth gan Benaethiaid o safbwynt canlyniadau ac fe nodwyd bod yn rhaid edrych ar ddisgwyliadau pob plentyn.

(d) Bydd yr Ymchwiliad Craffu yn disgwyl canlyniad adroddiad Arolwg ESTYN sydd i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf eleni. Gwelir hefyd bod rôl bwysig gan y corff llywodraethol a dylid ystyried sut i gryfhau rôl y llywodraethwyr. Gwelwyd bod arweinyddiaeth dda mewn ysgolion yn hynod bwysig.

(dd) Nodwyd ymhellach bod y Cynghorydd Dewi Owen wedi ymddiswyddo o'r Ymchwiliad Craffu ac felly wedi gadael lle gwag ar yr ymchwiliad. Roedd y Cynghorydd

Beth Lawton wedi datgan diddordeb i ymuno a'r ymchwiliad a gofynnwyd i'r Pwyllgor bleidleisio ar y cynnig i'w hethol i wasanaethu ar yr Ymchwiliad Craffu.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd bod Gwynedd yn y 6ed safle o fewn y gynghrair genedlaethol ac felly yn cymharu'n gymharol hefo awdurdodau eraill Cymru. Ond bod pryder wedi ei amlygu ynglŷn â'r pegynnu lle fo'r perfformiad yn is mewn rhai ysgolion o ran safonau a'r angen i gadw cysondeb a sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfle.

(ii) Nododd gynrychiolydd Undebau'r Athrawon ei fod yn cytuno bod angen canmol disgyblion a'r athrawon ond ni ddeallir pam bod Llywodraeth San Steffan yn deud bod athrawon yn methu oherwydd y ffordd i gael y gorau ohonynt yw eu cefnogi a'u canmol am eu llwyddiannau. Gofynnwyd ymhellach i'r Pwyllgor gefnogi i ysgolion gadw'r un drefn o dalu cyflogau fel sy'n bodoli ar hyn o bryd yn hytrach na'r syniad sydd gan y Llywodraeth o gyflwyno tâl lleol fel bo pob ysgol yn penderfynu ar dâl athrawon. Fel Undeb gwelir hyn yn fygythiad i forâl athrawon.

(iii) Nodwyd pwysigrwydd i rannu arferion da yn ogystal â dysgu gan ymarferwyr addysg tu allan i'r Sir.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch am adroddiad cynnydd yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg.**

**(b) Ethol y Cynghorydd Beth Lawton i wasanaethu ar yr Ymchwiliad Craffu fel olynydd i'r Cynghorydd Dewi Owen.**

4. **GOFAL CARTREF**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ynglŷn â darpariaeth gofal cartref yn benodol sut y gweithredir y ddarpariaeth gofal cartref, pryder ynglŷn â diffyg siaradwyr Cymraeg o fewn y ddarpariaeth ynghyd â diweddariad ynglŷn â chontractau oriau gwaith gweithwyr gofal cartref y Cyngor.

Derbyniwyd trosolwg o'r ddarpariaeth yng Ngwynedd gan yr Aelod Cabinet ac ymhelaethwyd a chafwyd diweddariad o'r arferion ieithyddol y staff; perthynas rhwng Ysbytai a Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyd-destun gofal cartref a galluogi ar y penwythnosau ynghyd a manylion am gontractau oriau gwaith

Rhoddwyd cyfle i Aelodau graffu'r adroddiad ond fe amlygwyd anniddigrwydd ganddynt nad oedd swyddogion o'r Adran Ddarparu yn bresennol i ymateb i ymholiadau a oedd yn achosi pryder.

Heriwyd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ynglŷn â'r materion isod:

(a) tra'n croesawu argymhelliad y Ganolfan Gynllunio Iaith y dylid newid y cymal ynglŷn â dewis iaith yr unigolyn sydd yn derbyn y gwasanaeth, nodwyd siom nad yw hyn yn rhan o'r contract ac y dylid troi'r bwriad yn ffaith a phwysleisiwyd mai angen sydd yn bwysig ac nid dewis.

Mewn ymateb, sicrhaodd y Rheolwr Comisiynu bod yr Uned wedi comisiynu darn o waith i sicrhau eu bod yn cynnal yr ymarfer gorau. Derbyniwyd grant i gyflawni'r gwaith a'r bwriad ydoedd diweddaru'r contractau mor fuan ag sy'n bosibl ac i gynnwys y cymal ieithyddol yn y contractau.

(b) gofynnwyd am fanylion cost o fonitro'r cwmnïau preifat gofal cartref i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion.

Mewn ymateb, esboniodd y Rheolwr Comisiynu bod gofal cartref yn cael ei ddarparu - 50% yn fewnol gan y Cyngor a'r ddarpariaeth yn cael ei allanoli 50%. Defnyddir cwmnïau preifat megis Caredig, Gofal Bro, Cymorth Llawr, Saga ac Abacare (ym Meirionnydd) yn ogystal â dau gwmni o'r trydydd sector sef Cartrefi Cymru ac Anheddau. Pwysleisiwyd drwy wneud hyn nad oedd y ddarpariaeth wedi lleihau i'r defnyddwyr ond yn hytrach wedi arwain at arbedion.

Nodwyd bod trefniadau monitro yn cael ei gynnal o fewn yr Uned gan ddau swyddog sydd yn sicrhau cydymffurfiaeth gan y cwmnïau preifat a'r gofal cartref yn unol â chanllawiau'r contractau mewn perthynas â safonau. Nid yw'r gost yn enfawr ond bod cost fewnol o fewn yr Uned Darparu i sicrhau disgwyliadau.

(c) yn dilyn o'r uchod, gofynnwyd pwy fyddai'n gyfrifol pe byddai unrhyw beth yn mynd o'i le yn y ddarpariaeth i oedolion bregus gan y cwmni preifat neu'r drydydd sector.

Mewn ymateb, esboniodd y Rheolwr Comisiynu nad y swyddog monitro fyddai'n gyfrifol ond sicrhawyd pan godir pryder ynglŷn ag unrhyw ddarparwyr gellir cynnal cyfarfod gyda'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) gan gynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau iechyd, heddlu a chymdeithasol er mwyn sicrhau diogelwch yr unigolion a hefyd disgwylir cydymffurfiaeth o'r safonau disgwyliedig.

(ch) gofynnwyd sut lwydda'r cwmni preifat i ddenu staff o'i gymharu â'r Cyngor sy'n profi trafferthion i recriwtio.

Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Comisiynu bod recriwtio yn broblemus mewn rhai ardaloedd megis De Meirionnydd lle mae'r cyfartaledd oed gweithio yn isel. Fodd bynnag gwelwyd gwelliant yn hyn o beth yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

(d) gwelir mewn rhai ardaloedd penodol y gofalwyr cartref yn ymddeol a neb yn cael eu penodi yn eu lle.

Adroddodd y Rheolwr Comisiynu bod sefyllfaoedd lle ceir dealltwriaeth gyda'r Uned Darparu ei bod yn prynu 5,000 o oriau ac yn rhoi contractau gwerth 4,500 oriau allan i'w staff. Pwysleisiwyd er bod yr oriau wedi gostwng ers 2008 roedd hyn yn bennaf oherwydd yr angen i hybu annibyniaeth pobl gyda chynlluniau megis teleofal, galluogi, a.y.b. Roedd yr oriau wedi dechrau cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf ond yn amlwg roedd y boblogaeth yn mynd i ddyblu i'r dyfodol ac y byddai'n rhaid ystyried gwahanol elfennau oherwydd ni fyddai'r ddarpariaeth yn gynaliadwy.

(dd) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â thelerau mwy ffafriol i'r gofalwyr cartref ar benwythnosau gan gwmni preifat, eglurodd y Rheolwr Comisiynu bod pob cwmni yn gweithredu'n wahanol gyda rhai yn talu graddfa ddwbl ar benwythnosau ac eraill ddim. Nodwyd mai un raddfa a weithredir yn fewnol gan y Cyngor i'r gofalwyr cartref.

(e) gofynnwyd pa drefniadau sydd mewn lle petai cwmni preifat yn methu fel sydd wedi digwydd mewn ardaloedd ym Mhrydain.

Mewn ymateb, esboniodd y Rheolwr Comisynu tra'n derbyn bod nifer o gwmnïau mawr cenedlaethol wedi prynu cwmnïau bychain i fyny, nid oedd hyn wedi digwydd yng Ngwynedd. Yn amlwg pe byddai argyfwng yn codi yna byddir yn trafod gyda chwmnïau eraill i gymryd y gwaith drosodd gan ddisgwyl i'r gofalwyr cartref drosglwyddo drosodd i'r cwmni a fyddai'n gweithredu.

(f) Amlinellodd y Rheolwr Comisynu'r camau a weithredir i wella cymwysterau ieithyddol gweddill y staff sydd yn ddi-gymraeg gan nodi bod oddeutu 90% o'r gofalwyr cartref yn ddwyieithog gyda'r nifer lleiaf yn ddi-gymraeg ym Meirionnydd. Yn y gorffennol, roedd y gwasanaeth wedi gorfod prynu pecynnau gofal o Bowys ac nid oes sicrwydd o

ddewis iaith tu allan i'r Sir. Nodwyd bod nifer o'r cwmnïau o safbwynt recriwtio yn cydweithion'n agos gyda Cholegau.

(ff) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r rheswm mewn gostyngiad yn yr oriau gofal cartref, nododd y Rheolwr Comisynu mai'r cynllun galluogi a ffactorau eraill sy'n gyfrifol am hyn er mwyn ceisio creu annibyniaeth unigolion.

(g) Parthed y cynllun galluogi, bod tueddiad i gleientiaid ffafrio'r gwasanaeth hwn gan y Cyngor oherwydd nad oes gymaint o newid yn y nifer o ofalwyr sydd yn ymweld â'r defnyddwyr. Eglurodd y Rheolwr Comisynu bod y sector annibynnol a'r Cyngor yn fewnol yn cynnig y cynllun galluogi 50:50. Nodwyd ymhellach bod trefn monitro yn bodoli gyda holiaduron yn cael eu hanfon allan i'r defnyddwyr ac os oes unrhyw beth amlwg yn codi o'r ymatebion yna fe ddilynir y rhain i fyny yn ddi-oed.

(ng) O safbwynt anghenion iaith, nododd y Rheolwr Comisynu bod rhai aelodau staff yn ddihyder i siarad Cymraeg a chadarnhaodd ei fod wedi trafod gyda'r Uned Hyfforddi i sicrhau bod unigolion yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant a'i fod yn fater i drafod ymhellach gyda'r cwmnïau preifat. Yn amlwg hefyd, ceir canran uchel o'r defnyddwyr sydd ddim yn siarad Cymraeg ac felly gellir cynnig y gwasanaeth iddynt drwy gyfrwng Saesneg. Fe ofynnir yn y cynlluniau gofal i ddefnyddwyr pa iaith y byddent yn dymuno derbyn y gwasanaeth.

Fe wnaed cais i'r Rheolwr Comisynu ddilyn y materion isod i fyny a ddeilliwyd o'r trafodaethau uchod gan ofyn iddo gyflwyno'r ymatebion i gyfarfod paratoi nesaf y Pwyllgor Craffu sydd i'w gynnal ar 15 Mai 2013:

(i) a gafodd y gweithlu gofal cartref ddewis oriau gwaith fel rhan o'u contract?

(ii) Deallir bod unigolion ar ddyletswydd o 7.00 y bore tan 11.00 yr hwyr – a yw hyn yn gywir?

(iii) a yw'r Uned wedi gwneud ceisiadau am eirda /tystlythyrau i'r unigolion a benodir?

(iv) faint o'r gofalwyr catref sydd heb arwyddo contractau?

(v) faint o unigolion sydd wedi colli swyddi o ganlyniad i allanoli'r ddarpariaeth?

(vi) mwy o wybodaeth ynglŷn ag union gost gofal cartref y Cyngor a chost gofal cartref preifat.

(vii) manylion am batrymau daearyddol gan nodi pa gwmnïau sydd yn gweithredu yn y gwahanol ardaloedd, beth yw patrwm o ran cymwysterau a gallu iaith staff yn ôl ardal.

(viii) dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiadur a anfonwyd i ddefnyddwyr gofal cartref gan gynnwys gofal cartref y sector annibynnol ac yn fewnol gan y Cyngor.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Rheolwr Comisynu gyflwyno ymatebion / gwybodaeth i'r cwestiynau amlinellir yn (i) i (viii) uchod i gyfarfod paratoi nesaf y Pwyllgor Craffu hwn.**

## 5. ASESIAD ANGHENION LLETYA A GOFAL, PORTHMADOG

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal ar gynnydd yr adolygiad anghenion lletya a gofal yn ardal Porthmadog a'r cyffiniau.

Tywysodd yr Aelod Cabinet yr Aelodau drwy'r adroddiad gan gyfeirio at y gynhaliaeth a gynigir i bobl hŷn i'r dyfodol, diweddariad o'r adolygiad yn ardal Porthmadog a'r cyffiniau, ynghyd â diweddariad ynglŷn â gweddill y Sir. Tynnwyd sylw hefyd at yr ymatebion i'r

cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor Craffu yn deillio o drafodaeth a gynhaliwyd yn y cyfarfod paratoi sef:

- pa wersi a ddysgwyd o'r newidiadau yn ardal Blaenau Ffestiniog ac ardaloedd eraill
- pa ddarpariaeth sydd mewn lle yn barod i ddelio gyda chau unrhyw gartrefi
- pa gynlluniau sydd ar y gweill i ddelio gyda chau unrhyw gartrefi a'r amserlen
- pa fath o drafodaethau a gynhaliwyd gyda'r defnyddwyr
- faint o bobl sydd ar y rhestrau aros fesul ardal

Nodwyd bod y wybodaeth yn cyfleu darlun o'r hyn sy'n digwydd yn ardal Porthmadog ac yn werthfawr i ddeall yn well beth yw anghenion pobl hŷn. Yn gyffredinol, noda'r darlun ostyngiad yn y nifer o unigolion sy'n mynd i ofal preswyl a phwysleisia'r gwaith sydd yn mynd ymlaen bod angen sicrhau dewisiadau tai a chefnogaeth sy'n ymateb i anghenion unigolion sy'n amrywio yn ddibynnol ar amgylchiadau.

Rhoddwyd cyfle i herio cynnwys yr adroddiad ac fe amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) bod angen cywiro'r frawddeg gyntaf yn y cyflwyniad o'r gwerthusiad a oedd ynghlwm i'r adroddiad i ddatgan mai penderfyniad y Cyngor llawn ar 15 Rhagfyr 2011 ydoedd i gau Hafod y Gest ac nid Bwrdd y Cyngor fel awgrymir. O dan y drefn llywodraethu flaenorol y Cyngor roedd modd galw penderfyniad i fyny ac fe wnaethpwyd hyn yn yr achos yma gan bwysleisio mai da o beth ydoedd y drefn honno. Nodwyd bod yr adroddiad yn un damniol a heb fod yn agored a theg, bod oddeutu 24 gwers i'w ddysgu o'r broses ac nad oedd unrhyw ymddiheuriad i'r pryder achoswyd i'r bobl fregus a'u teuluoedd yn ardal Porthmadog. Fodd bynnag, oherwydd bod yr adroddiad yn cyfeirio at wynebu ffeithiau gyda'r ymgynghoriad yn deg a thryloyw hyderir na fyddir yn yr un sefyllfa â'r gorffennol ac y gellir cynnig darpariaeth addas i bobl Porthmadog.

(ii) cytunwyd bod camgymeriadau wedi eu gwneud yn y gorffennol ond bellach ymfalchïwyd bod cyfarfodydd positif yn cael eu cynnal gyda mewnbwn gan yr aelodau lleol a nodwyd pwysigrwydd i drafod yn agored.

(iii) mewn ymateb i ymholiad nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn wedi bod yn weithredol ers oddeutu dwy flynedd yn ei ffurf bresennol. Eglurwyd bod gwasanaethau pobl hŷn yn cynnwys gofal preswyl, cynllun teleofal a galluogi, gofal dydd, lletya ac yn ystyried tai ychwanegol, defnydd tai gwarchod a pha mor effeithiol yw'r prosesau asesiadau anableddau. Cyfeiria adolygiad strategol preswyl a nyrsio at ddarpariaeth breswyl yn unig.

(iv) ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol i ymholiad ynglŷn â rhestrau aros gan nodi nad oedd neb ar y rhestr aros am gartref preswyl. Eglurwyd ymhellach, mewn ymateb i bryder am ddarpariaeth iaith i ddefnyddwyr a'r angen i gleifion orfod teithio ymhell am ofal, bod Unedau Bryn Blodau (Llan Ffestiniog) a Llys Cadfan (Tywyn) yn cynnig gofal preswyl i gleifion dementia ac nid yn darparu gofal nyrsio. Pe byddai angen gofal nyrsio yna byddai'n rhaid parhau gyda'r drefn o deithio i unedau eraill. Roedd darpariaeth ar gael yng Ngogledd Gwynedd (Bangor, Bontnewydd a Pines, Cricieth) ond bod diffyg darpariaeth ar gyfer gofal nyrsio cleifion dementia ym Meirionnydd. Fel rhan o'r prosiect gwasanaeth pobl hŷn ceisiwyd denu darparwyr annibynnol i ddatblygu cartref o'r newydd ym Meirionnydd ond ni fu hyn yn llwyddiannus hyd yn hyn. Nid yw'r Cyngor ychwaith wedi camu fewn i'r gwasanaeth nyrsio ei hun oherwydd gofynion rheolaethol meddygol.

(v) Yn deillio o'r ymateb uchod, gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynglŷn â chofrestriad deublyg (dual registration).

(vi) siom bod 9 uned wag yn Awel y Coleg, Y Bala, a gofynnwyd faint o breswylwyr symudodd oddi yno ac i le?

Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod 2 allan o 9 /10 wedi symud o Bron y Graig yn unol ag asesiadau a bod ganddynt angen gofal nyrsio yn hytrach na phreswyl. Ychwanegwyd bod yr unedau yn cael ei llenwi yn raddol. O ran y llwybr asesiadau, fe geisir cefnogi unigolion cymaint â phosibl yn eu cartrefi ond os oes angen gofal nyrsio nodwyd bod cartrefi ar gael yn Llandderfel, Cerrigydrudion, Bryn Blodau (Llan Ffestiniog, Cefn Rodyn a Llwyn (Dolgellau).

(vii) gofynnwyd am wybodaeth bellach ynglŷn â dalgylch defnyddwyr y gwasanaeth ym Mron y Graig gan restru o ba gymunedau maent yn dod a'r rhesymeg paham eu bod yno?

(viii) mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chymryd pobl hŷn i gartref Hafod y Gest, Porthmadog, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad oedd y cartref yn derbyn neb yn barhaol ond yn derbyn defnyddwyr ar gyfer gofal ysbaid am gyfnod penodol. Nododd yr Aelod Cabinet Gofal ymhellach na fyddai'n deg i gymryd pobl hŷn i mewn heb wybod i sicrwydd beth yw dyfodol Hafod y Gest. Os oes angen gofal preswyl yn yr ardal yna bydd yr unigolyn yn cael ei leoli mewn ymateb i'r angen.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at gynllun newydd sef Uned Adfer sydd yn weithredol ar egwyddorion y cynllun galluogi er mwyn adennill hyder unigolion gyda'r bwriad iddynt symud yn ôl adref neu i ble bynnag sydd yn addas ond nid o reidrwydd i ofal preswyl.

Tra'n derbyn bod angen gofal preswyl yn ardal Porthmadog y broblem ydoedd faint o angen sydd yna o ystyried hefyd bod cartrefi preswyl a nyrsio yn bodoli yn yr ardal.

Tu allan i gartref nyrsio a phe byddai'r ddarpariaeth ddim yn gallu ei ddiwallu yn y gymuned, tai gofal ychwanegol sydd yn cynnig yr opsiwn arall i ddefnyddwyr. Byddai model tai gofal ychwanegol yn cynnig gwasanaeth o ofal cartref ynghyd â nyrsys cymunedol yn union run fath â'r gwasanaeth a dderbynia unigolion yn eu cartref.

(ix) gofynnwyd am fanylion ynglŷn â faint yng Ngwynedd sydd yn derbyn gofal nyrsio / gofal dementia tu allan i'w cymunedau.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Aelod Cabinet Gofal gyflwyno manylion pellach fel ymateb i'r sylwadau a nodwyd uchod yn benodol:**

**(i) Cofrestriad Deublyg (dual registration).**

**(ii) faint o breswylwyr symudodd o Bron y Graig, Y Bala ac i le?**

(**iii) dalgylch defnyddwyr y gwasanaeth ym Mron y Graig gan restru o ba gymunedau maent yn dod a'r rhesymeg paham eu bod yno?**

**(iii) faint o Wynedd sydd yn derbyn gofal nyrsio / gofal dementia tu allan i'w cymunedau.**

## 6. GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

(a) Adroddodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi cwrdd â'r Aelod Cabinet Gofal a'r Gyfarwyddwraig Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod datblygiad y rhaglen waith yn erbyn y cynllun strategol newydd, blaenoriaethau'r Gwasanaeth, ymweliad y Arolygiaeth Gofal a Gwasanethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) â Gwynedd yn ogystal â chwe awdurdod

arall ar sut mae rôl arweinyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ddatblygu. Cyfeiriwyd hefyd at sylwadau a wnaed yn y cyfarfodydd paratoi yn rheolaidd ynglŷn â chylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau a sut y gellir cyfiawnhau sylw teilwng i'r meysydd sydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.

(b) Adroddodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ei bod wedi cynnal adolygiad ysgafn o'r trefniadau ers y newid trefn o lywodraethu'r Cyngor i'r drefn Cabinet ac wedi nodi'r sylwadau ynglŷn â maes gwaith y Pwyllgor Craffu hwn. Tra'n derbyn ei fod yn gylch gorchwyl eang i un Pwyllgor roedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn canmol y ffaith bod gwasanaethau ac addysg gyda'i gilydd er mwyn cael cyd-drafodaeth a bod manteision iddynt fod dan un pwyllgor. Nodwyd ymhellach bod y Pwyllgor Craffu wedi cychwyn ar ymchwiliad i ansawdd addysg a'r argraff a geir gan Aelodau ydoedd bod llawer iawn mwy o foddhad drwy gynnal ymchwiliadau dwys. Ymddangosir mai dyma'r cyfeiriad fydd yn cael ei argymell ar y ffordd orau ymlaen i'r dyfodol sef bod modd edrych o ddifrif beth yw dylanwad gweithrediadau polisi'r Cyngor ar y dinesydd.

Argymhelliad yr adolygiad ydoedd bod y Pwyllgor yn cadw fel un Pwyllgor a ddim yn rhannu ond byddai modd symud un / ddau o faterion ymylol i bwyllgorau eraill pe byddai angen. Awgrymwyd y gellir rhannu'r Aelodau yn ôl eu diddordeb fel bo gweithredu drwy ymchwiliadau dwys ac adrodd yn ôl i'r un pwyllgor fel bo pawb yn cael trosolwg a hefyd yn medru cael boddhad o ymgymryd â gwaith manwl.

(c) Mewn ymateb, cydnabyddai Aelod ei fod yn broses o brofiad ac erbyn hyn ei bod wedi dechrau cael blas ar y ddau faes. Teimlai os yw'r Arolygiaeth yn datgan ei fod yn arfer da y dylid parhau gyda'r trefniant. Fodd bynnag, un o'r ystyriaethau lle mae rhagor o ymchwiliadau yn creu pryder iddi ydoedd a fyddai digon o gapasiti o ran cefnogaeth i'r ymchwiliadau i ymdopi â'r gwaith.

(ch) Anghytunai Aelod arall gyda'r awgrym i barhau gydag un Pwyllgor ac y byddai yn gam gwag eithriadol o ystyried bod gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn gyfrifol am 80% o wariant y Cyngor. Teimlwyd y byddir yn colli cyfle i graffu'n effeithiol oherwydd bod y maes llafur yn anferthol ac ar hyn o bryd teimlai nad oedd sylw teilwng yn cael ei roi i'r ddau faes.

(d) Cytunai sawl Aelod bod y llwyth gwaith yn enfawr ond awgrymwyd ei dreialu am gyfnod ac adolygu'r sefyllfa mewn oddeutu chwe mis i flwyddyn.

(dd) Mewn ymateb i'r sylw wnaed ynglŷn â chefnogaeth ychwanegol, nododd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol y byddai'n gweld yr angen i gael cefnogaeth ychwanegol i gynnal yr ymchwiliadau. Roedd wedi bod yn trafod gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol i ganfod a fyddent yn gallu cefnogi'r ymchwiliadau ar lefel uwch, fel petai. Derbyniwyd yr egwyddor ond byddai'n rhaid cynnal trafodaethau pellach gyda'r Adrannau perthnasol.

O safbwynt yr awgrym i'w dreialu am gyfnod a bod amryw o Aelodau yn cael boddhad o ymgymryd â gwaith mwy dwys roedd o'r farn mai dyma'r cyfeiriad ar gyfer craffu i'r dyfodol ac y byddai'n gallu bod yn gynllun peilot ar gyfer y pwyllgorau craffu eraill. Pe byddai'r Pwyllgor yn cytuno, awgrymwyd y gellir cyflwyno rhestr o'r cylch gorchwyl i gyfarfod paratoi nesaf y Pwyllgor Craffu hwn i drafod pwy fyddai â diddordeb ym mha faes ac i sefydlu Grwpiau Diddordeb, yna blaenoriaethu'r materion yn ôl yr effaith ar y dinesydd fel bo modd rhoi sylw teilwng i'r ddau faes.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a gofyn i'r Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu cyflwyno cylch gorchwyl i gyfarfod paratoi nesaf y Pwyllgor Craffu hwn i drafod diddordeb Aelodau ym meysydd gofal ac addysg gyda'r bwriad o sefydlu Grwpiau Diddordeb ar gyfer cynnal ymchwiliadau mwy dwys.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.15 pm.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **20 Mehefin 2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **Ymchwiliad craffu posibl – gofal cartref / gofal dydd** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd R H Wyn Williams** |
| | |

## 1.0. Cefndir

1.1 Mewn cyfarfod paratoi, y mae aelodau'r Pwyllgor wedi mynegi awydd i gynnal ymchwiliad ym meysydd Gofal Cartref a Gofal Dydd, gyda'r union sgôp i'w drafod. Nodwyd yn benodol bod aelodau eisiau lleddfu pryderon nad oes wastad digon o ddewis o wasanaethau amrywiol ar gael i unigolion, ac hefyd eisiau sicrhau bod gwasanaethau digonol ar gael ym mhob rhan o'r Sir.

1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn, sydd i'w gyflwyno yn y cyfarfod ochr yn ochr â chyflwyniad llafar gan Uwch Reolwyr o'r Adran Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden, yw hysbysu'r aelodau o'r gwaith ail ddylunio a datblygu sydd eisoes ar y gweill yn y meysydd Gofal Cartref a Gofal Dydd.

1.3 Trwy rannu'r wybodaeth berthnasol gyda'r aelodau, y gobaith yw sicrhau bod amseriad a briff unrhyw ymchwiliad yn gwbl briodol a diamwys, gyda'r nôd o arwain at y canlyniadau gorau i oedolion Gwynedd.

## 2.0 Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn 2011-16

2.1 Cafodd Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn Gwynedd am y cyfnod rhwng 2011 a 2016 ei fabwysiadu gan Fwrdd y Cyngor ym mis Ionawr 2012. Yn gryno, dyma yw cynnwys y cynllun:

- Dadansoddiad o anghenion pobl hŷn Gwynedd, o ran natur gwasanaethau a niferoedd
- Gweledigaeth sy'n amlinellu sut rydym eisiau gweld yr anghenion hyn yn cael eu diwallu
- Darlun o'r gwasanaethau oedd yn cael eu darparu yn fewnol neu eu prynu gan y Cyngor ar gychwyn oes y cynllun, ac a fwriedir eu darparu / prynu dros gyfnod o 5 mlynedd
- Crynodeb o'r gyllideb ar gyfer prynu gwasanaethau, a dadansoddiad o'r rhaniad cyllideb rhwng gwahanol fathau o wasanaethau dros gyfnod o 5 mlynedd.

2.2 Gellir gael copi o'r cynllun ar wefan y cyngor drwy ddilyn y linc canlynol: http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1148/cynllun_comisiynu_pobl_hyncymraeg_terfynol.pdf Bydd y cyflwyniad llafar yn ystod y cyfarfod yn tynnu sylw penodol at y weledigaeth (tudalen 1), y model mapio anghenion ac adnoddau (tudalen 24) a'r cynllun gweithredu (tudalen 27).

2.3 Fe welir o'r cynllun comisiynu bod swyddogion ac aelodau'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i wneud newidiadau ym meysydd gofal cartref a gofal dydd.

## 3. Adolygiadau sydd ar y gweill

3.1 Yn ystod y cyfarfod, bydd mwy o fanylder ar gael am y gwaith sydd ar y gweill i adolygu gwasanaethau pobl hŷn, yn arbennig ym meysydd gofal cartref a gofal dydd (gan mai dyna y mae'r aelodau wedi mynegi diddordeb ynddo).

3.2 Mae Gofal Dydd yn dod o fewn sgôp y prosiect Trawsnewid Gwsanaethau Pobl Hŷn. Mae'r prosiect hwn wedi bodoli ers peth amser, ac mae'n cynnwys adolygu darpariaeth gofal preswyl a gofal cymunedol.

3.3 Mae Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-2017, o dan faes 'Gofal, Iechyd a Lles', blaenoriaeth GOF1 : 'Ymateb yn Well i Anghenion Pobl Fregus i Sicrhau Gwasanaethau Gofal Cynaliadwy', yn ymrwymo i weithredu'r Prosiect Trawsnewid Pobl Hŷn. Dyma a ddywedir yn benodol am yr hyn sydd i'w gyflawni yn ystod 2013/14 ym maes Gofal Dydd:

- Cytuno ar gynllun sy'n cyfarch anghenion gofal dydd pobl hŷn gan gynnwys cyfleon gwaith / gwirfoddoli / cymdeithasu / gofal personol a gofal dwys
- Adnabod opsiynau gofal dydd Maesincla Caernarfon
- Datblygu rhaglen waith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â darpariaeth gofal dydd arbenigol dementia.

3.4 Nid yw gofal cartref yn destun adolygiad penodol o dan y prosiect uchod, ond caiff ei ddatblygu a'i fonitro'n barhaus gan y tîm sy'n monitro contractau, gyda chefnogaeth y tîm broceriaeth. Trwy gyfrwng perthynas waith gref gyda'n darparwyr mewnol ac allanol, sicrheir bod unrhyw faterion ynghlwm ag ansawdd, anghenion neu leoliad darpariaeth yn cael eu trafod a'u datrys yn ôl yr angen. Byddwn yn parhau i ddatblygu yn unol â'r bwriadau sydd o fewn y Cynllun Comisiynu, ac adolygu'r bwriadau hynny fel y daw gwybodaeth gyfredol i law am ansawdd, cost uned a chryfder y farchnad.

## 4. Y ffordd ymlaen

4.1 Ar sail yr wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn 2011-16 ac ar lafar yn y cyfarfod, y gobaith yw y gellir cael trafodaeth adeiladol am yr hyn y dylid ei gynnwys o fewn sgôp unrhyw ymchwiliad craffu, a phryd fyddai'n amserol i gynnal ymchwiliad o'r fath.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **20 Mehefin 2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **Gofal Ysbaid** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd R H Wyn Williams** |
| | |

## 1.0. Cefndir

1.1 Gweledigaeth - mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid. Gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yw hybu a chynnal annibyniaeth drwy gefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyn hired â phosibl.

1.2 Prif nod Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer oedolion yw sicrhau eu bod yn:

- Cwrdd ag anghenion yr unigolyn
- Cyfrannu tuag at gynnal annibyniaeth
- Ddeniadol, addas a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol
- Cynnig dewisiadau ac opsiynau i'r unigolyn
- Cynnig gwerth am arian / yn gost effeithiol
- Cwrdd â safonau disgwyliedig
- Ddigon hyblyg i allu newid i gyfarch unrhyw newidiadau i amgylchiadau ac anghenion yr unigolyn.

1.3 Prif egwyddorion y cynllun comisiynu ar gyfer pobl hŷn yng Ngwynedd yw (cymeradwywyd y cynllun gan Fwrdd y Cyngor ar 24 Ionawr 2012) hwn:

- Hybu annibyniaeth gan sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol er mwyn galluogi pobl i barhau i fyw gartref cyn hired â phosibl
- Lleihau unigrwydd ac arwahaniad cymdeithasol
- Canolbwyntio ar urddas mewn gofal ac ansawdd gwasanaethau
- Gweithio mewn partneriaeth
- Cydnabod rôl gofalwyr a sicrhau cefnogaeth iddynt allu parhau i ofalu.

1.4 Mae gofal ysbaid yn rhan annatod o geisio cadw pobl i barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

**2.0 Diffiniad o ofal ysbaid:**

"Gofal dros dro ar gyfer unigolyn er mwyn cefnogi gofalydd i barhau i ofalu."

2.1 Gall gofal ysbaid fod yn ychydig oriau yng nghartref yr unigolyn neu yn y gymuned; cyfnod hyd at ddiwrnod mewn lleoliad addas (e.e. canolfan ofal neu gartref gofal) neu gyfnod hyd at 2 wythnos mewn cartref gofal preswyl neu nyrsio. Bydd rhai unigolion yn derbyn un neu ragor o'r mathau yma o wasanaeth oddi fewn i'w pecyn gofal.

## 3. Sut y darperir gofal ysbaid ar hyn o bryd yng Ngwynedd

3.1 Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd newid yn ein defnydd o adnoddau preswyl. Mae strategaethau ar gyfer cefnogi unigolion adref yn eu cartrefi yn dwyn ffrwyth ac mae llai o alw am ofal preswyl traddodiadol:

- Mae gwelyau gwag o fewn cartrefi preswyl y Cyngor.
- Mae cynnydd yn y galw am gyfnodau ysbaid.
- Mae mwy o gydnabyddiaeth a gwerthfawrogiad o rôl gofalwyr di-dâl, ac felly mae'r angen i'w cefnogi yn cael mwy o sylw.

3.2 Cynigir gofal ysbaid i bobl hŷn dros 65 oed oddi fewn i gartrefi preswyl Cyngor Gwynedd.

3.3 Clustnodir 2 wely ar gyfer ysbaid ym mhob cartref o eiddo'r Cyngor. Rydym hefyd yn prynu gwelyau ar drefn spot yn y sector annibynnol.

3.4 Ychydig iawn o ddefnydd a wneir o gartrefi all sirol a chartrefi nyrsio (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n talu am ofal ysbaid mewn cartrefi nyrsio).

| **Lleoliad** | **2011/12** | **2012/13** |
|---|---|---|
| **Cartrefi Preswyl Cyngor Gwynedd** | 160 | 211 |
| **Cartrefi Preswyl Annibynnol** | 44 | 25 |
| **Preswyl allan o'r sir** | 5 | 6 |
| **Nyrsio** | 9 | 3 |
| **Nyrsio allan o'r sir** | 4 | 4 |
| **Cyfanswm** | 222 | 249 |

Defnydd o adnoddau Gofal Preswyl a Nyrsio ar gyfer Ysbaid – cyfnodau ysbaid Gwynedd gyfan, Oedolion dros 65 (Ffynhonell: RAISE)

**4. Beth yw'r anawsterau, a beth yw'r cynlluniau ysbaid ar gyfer y dyfodol?**

4.1 Ar wahân i rai cyfnodau prysur e.e. gwyliau'r haf, mae'n bosibl diwallu'r anghenion am ofal ysbaid. Er mwyn gallu cynllunio i gyfarch y galw cynyddol dros y blynyddoedd nesaf, bwriedir sefydlu unedau gofal ysbaid yn y dair ardal.

4.2 I'r perwyl hwn, mae cynllun peilot ar fin cael ei sefydlu yng nghartref preswyl Plas Pengwaith yn Llanberis ar gyfer pobl 65+. Bydd lle ar gyfer hyd at 7 person yn yr uned a fydd yn cael ei weld fel uned ar wahân i weddill y cartref, sydd yn cynnig gofal tymor hir.

4.3 Mae defnyddio cartref y Cyngor yn ein galluogi i agor uned ysbaid ar ddim cost ychwanegol. Gellir sefydlu gwaelodlin ar gyfer defnydd a chynllunio yn dilyn y cyfnod peilot.

4.4 Gellir diffinio uned gofal ysbaid fel adnodd arbennig o fewn cartref gofal preswyl sydd yn cynnig cyfnodau o ysbaid i ofalwyr. Mae'n cynnig cyfle i ofalwyr gael seibiant oddi wrth ofalu am gyfnodau hyd at bythefnos ar y tro.

4.5 Pwrpas adnodd ysbaid preswyl yw i:

- Gefnogi gofalwyr i barhau yn eu rôl gofalu drwy drefnu cyfnodau rheolaidd o seibiant oddi wrth ofalu.
- Reoli gwasanaeth ysbaid preswyl mewn modd sydd yn sicrhau cysondeb a thegwch mynediad at y gwasanaeth
- Cryfhau trefniadau cefnogi gofalwyr di-dâl yn gyffredinol drwy roi gwell mynediad at wybodaeth a gwasanaethau'r trydydd sector.
- Cryfhau trefniadau ymateb mewn argyfwng.
- Defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon.

4.6 Mae'r cyswllt rhwng yr uned gofal ysbaid yma a chefnogaeth ehangach i ofalwyr yn hanfodol, gan fod hyn y cyfnod ysbaid a gaiff y gofalydd yn eu cynorthwyo i allu gofalu yn y dyfodol ac felly'n ategu at y weledigaeth i gadw pobl yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

4.7 Gellir diffinio gofalydd fel person di-dâl sydd yn rhoi neu yn ystyried rhoi, neu sydd yn bwriadu rhoi lefel sylweddol o ofal yn rheolaidd.

## 5. Gofal adfer tymor byr

5.1 Cyfnod o ofal mewn sefydliad preswyl sydd yn cynnig cyfle i unigolyn dderbyn cefnogaeth er mwyn cyrraedd eu llawn botensial o safbwynt eu gallu i fyw yn annibynnol. Gall hyn fod yn dilyn dirywiad mewn cyflwr neu waeledd.

5.2 Bydd y gofal yn dilyn egwyddorion Galluogi.

5.3 Gall hyn fod am gyfnod **hyd at** 6 wythnos. Bydd yn bosibl ymestyn hyn os yw'r defnyddiwr yn debyg o elwa o gyfnod pellach o alluogi. Bydd hefyd bosib rhyddhau person o'r cynllun cyn y 6 wythnos os yw'r nod ac amcanion wedi eu cyrraedd.

5.4 Mae disgwyliad i'r person ddychwelyd adref yn dilyn cyfnod o ofal tymor byr. Os na fydd hyn yn bosib, a bod Tîm Aml Ddisgyblaethol yn argymell lleoliad preswyl parhaol, yna bydd raid penderfynu ar y lleoliad mwyaf addas ar gyfer y person.

5.5 Ni fydd yn opsiwn aros yn yr Uned Tymor Byr gan y byddai hyn yn golygu bod rhywun arall yn methu ar y cyfle o dderbyn cyfnod o adferiad a Galluogi.

5.6 Darperir gofal adfer tymor byr yng nghartref Plas Gwilym, Penygroes. Adnodd preswyl arbenigol ydyw (Uned Gofal Tymor Byr) sy'n creu awyrgylch a threfn lle rhoir cyfleoedd i unigolion wella a chryfhau cyn bod angen gwneud unrhyw benderfyniad parhaol am ddyfodol eu gofal. Drwy ddarparu gwasanaeth mewn modd sy'n annog annibyniaeth, gellir newid diwylliant a chynyddu'r nifer sy'n gallu dychwelyd i fyw gartref yn hytrach na symud i welyau preswyl tymor hir.

## 6. Darpariaeth tai gofal ychwanegol

6.1 Mae tai gofal ychwanegol wedi eu dylunio gydag anghenion pobl hŷn mewn golwg gyda gwahanol lefelau o ofal a chefnogaeth ar gael ar y safle. Mae gan bobl sy'n byw mewn tai gofal ychwanegol eu cartrefi hunan gynhaliol eu hunain, eu drws ffrynt eu hunain a hawl cyfreithiol i drigo yno. Mae'n rhoi cartref a gofal / cefnogaeth i bobl a fyddai mewn rhai achosion wedi gorfod mynd i gartref preswyl.

6.2 Mae cefnogaeth ddomestig a gofal personol ar gael. Mae staff gofal a chefnogaeth ar y safle 24 awr. Hefyd darperir bwyty a chyfleusterau eraill ar gyfer y rhai sy'n dymuno eu defnyddio. Bydd gan y rhan fwyaf o gynlluniau tai gofal ychwanegol breswylwyr sy'n fwy annibynnol ac abl yn ogystal â rhai sy'n fregus iawn. Bydd rhai yn derbyn llawer o gefnogaeth a gofal, tra bod eraill yn byw'n annibynnol. Mae cynlluniau tai gofal ychwanegol yn cael eu datblygu gydag anghenion amrywiol pobl hŷn mewn golwg.

6.3 Mae safle tai gofal ychwanegol Awel y Coleg yn y Bala yn cynnig 1 gwely ysbaid / gofal canolraddol.

6.3.1 Gofal canolraddol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd yn gyfrifol am ariannu pecynnau gofal canolraddol. Mae gofal canolraddol yn wasanaeth sy'n cefnogi pobl i aros yn eu cartref eu hunain yn lle gorfod mynd i'r ysbyty, neu helpu pobl i fynd adref wedi iddynt fod yn yr ysbyty. Ymgymerir y gofal gan dîm o bobl a all gynnwys nyrsys, cymorthyddion gofal, therapyddion galwedigaethol ac eraill. Fe all barhau am ychydig ddiwrnodau neu wythnosau, yn ddibynnol ar angen.

6.4 Mae yna safle tai gofal ychwanegol yn cael ei hadeiladu gan Tai Gogledd Cymru ym Mhenrhosgarnedd, Bangor.

**7.** Mae'r adroddiad yma wedi ceisio crisialu gwybodaeth ynglŷn â gofal ysbaid / adfer a thai gofal ychwanegol yng Ngwynedd.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau - Gofal** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **20-06-2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **Dryll y Car** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd R. H. Wyn Williams** |
| | |

**BETH YW DRYLL Y CAR?**

Mae Dryll y Car yn wasanaeth 8 gwely mewnol is-aciwt yn gweithredu ar sail cyfeirio i fyny ac i lawr. Mae'n gwasanaethu poblogaethau Ynys Môn a Gwynedd ac wedi'i leoli yn Abermaw, Meirionnydd.

Mae'n cynnig gwasanaeth 24 awr mewn awyrgylch therapiwtig a diogel.

Fodd bynnag, mae'n uned ynysig ddigyswllt, sy'n arwain at ystyriaethau Iechyd a Diogelwch ar gyfer y cleifion a'r staff.

Mae pryderon ynghylch y ffaith fod y staffio meddygol yn fregus ac yn anghynaladwy.

Mae'r defnydd o'r cyfleuster wedi bod yn gyfyngedig (defnydd isel o'r gwelyau) o ganlyniad i'r ffactorau isod:

- Lleoliad
- Wedi'i ynysu mewn perthynas â'r gwasanaethau IM eraill
- Ystafelloedd Aml Feddiannaeth (3 dwbl)

Gan fod yn rhaid cynnig lleiafswm y cyfraddau staffio mae'n wasanaeth drud i'w redeg gan fod y defnydd yn isel.

**YSTYRIAETHAU AR GYFER DEFNYDD Y DYFODOL**

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan BIPBC i ddatblygu opsiynau ar gyfer yr uned hon, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Trydydd Sector a defnyddwyr gwasanaeth.

Y materion i'w hystyried oedd:

- Safle i'r staff oedd yn hygyrch o ran ei ddaearyddiaeth ac amser teithio
- O ble y dylid darparu gwasanaethau clinigol/ymyraethol
- Cydleoli ac integreiddio timau Iechyd Meddwl
- Cyfleoedd ar gyfer gofal ysbaid a rhwystro argyfyngau
- Eglurhad ar gyfrifoldebau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer darparu gofal ysbaid
- Cydnabyddiaeth fod y gwasanaeth yn darparu amrediad o ymyraethau ar draws y meysydd aciwt, adferol a chymunedol

Nodwyd pedwar opsiwn:

**Opsiwn 1** Dim newid
**Opsiwn 2** Gwella'r gwasanaethau i gleifion mewnol
**Opsiwn 3** Datblygu Model Cymunedol yn seiliedig ar Driniaeth yn y Cartref a mwy o gyfraniad gan y Tîm Iechyd Meddwl cymunedol. Datblygu cyfranogiad y Trydydd Sector ymhellach
**Opsiwn 4** Datblygiad Cymunedol a'r Trydydd Sector. Fel yr uchod, ond gydag amrediad ehangach o wasanaethau – er enghraifft, defnyddio'r Cynllun Lleoli Oedolion ar gyfer gofal ysbaid byr neu fel rhan o'r mentrau rhyddhau o'r ysbyty.

Dewiswyd opsiwn 4 fel yr opsiwn mwyaf ffafriol.

**BARN Y CYNGOR IECHYD CYMUNED.**

Cytunodd y CIC i'r cynigion ar yr amod:

- Bod y Tîm Iechyd Meddwl a'r cynllun Triniaeth yn y Cartref yn Meirionnydd yn cael eu gwella o ganlyniad i'r trosglwyddiadau staff.
- Bod Cynllun Llety wedi'i Achredu yn cael ei sefydlu er y cydnabuwyd y byddai hyn yn cymryd cryn amser.
- Bod gan gleifion well fynediad i wasanaethau meddygol o ran asesiadau a monitro.

**Y SEFYLLFA GYFREDOL**

Mae dyddiad arfaethedig ar gyfer cau Dryll y Car wedi'i adnabod, sef 19 Gorffennaf 2013. Ni fydd unrhyw dderbyniadau'n cael eu hystyried ar ôl 4 Gorffennaf.

Rhoddir cefnogaeth i'r staff wneud penderfyniadau am eu cyflogaeth yn y dyfodol, a rhoddir pob ystyriaeth i'r opsiynau a ffafrir ganddynt o ran eu lleoliadau (Triniaeth yn y Cartref, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol). Bydd y cyfweliadau ar gyfer staff yn cychwyn ar 5 Mehefin 2013.

Mae BIPBC yn gweithio gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaethau i sefydlu llwybr clinigol wedi'i leoli yn y gymuned er mwyn sicrhau y rhoddir cefnogaeth lawn i gleifion ar ôl cau'r Uned.

Bydd y cleifion sy'n defnyddio'r uned ar hyn o bryd yn cael eu hasesu, a gofynnir am eu barn am y dewisiadau eraill a ffafrir ganddynt.

**BARN YR ADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwbl gefnogol i'r datblygiadau hyn ac i'r nod o sefydlu a chryfhau gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Roedd Dryll y Car yn wasanaeth a oedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan nifer fechan o gleifion a oedd yn defnyddio'r uned, ond nid oes amheuaeth y gellir defnyddio'r adnoddau a fydd yn cael eu rhyddhau i wasanaethu mwy o gleifion mewn modd mwy hyblyg a diogel. Mae Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn hyderus na fydd y cleifion sy'n defnyddio Dryll y Car o dan unrhyw anfantais wrth iddo gau oherwydd fe fydd gwasanaethau eraill yn cael eu darparu.

Wrth reswm, ni ddylid bychanu’r her o sefydlu gwasanaethau cymunedol cryf a sicrhau presenoldeb meddygol sy’n gynaliadwy yn enwedig mewn ardal wledig.

Un o’r materion a amlygwyd yw’r angen i wahaniaethu rhwng cyfrifoldebau iechyd a gofal cymdeithasol o ran gofal ysbaid. Efallai y bydd rhai defnyddwyr gwasanaeth bellach yn gorfod cyfrannu’n ariannol tuag at eu gofal ysbaid os nad ydynt yn gymwys i dderbyn gwasanaethau iechyd. Bydd gwasanaethau yn y gymuned yn cael eu capio ar lefel Llywodraeth Cymru, sef £50 yr wythnos. Codir tâl am wasanaethau preswyl yn unol â Rheoliadau CRAG. Fodd bynnag, rhagwelir mai ychydig fydd yr effaith ar ddefnyddwyr sy’n mynychu Dryll y Car neu ar Adran Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd mai gwasanaethau Iechyd oedd yn cael eu cynnig a bydd bosib cynnal y gwasanaeth yma yn y gymuned wedi cau Dryll y Car.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **20 Mehefin 2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2011/ 2012 - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd R H Wyn Williams** |

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu parthed prif ganfyddiadau ag argymhellion Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o berfformiad Cyngor Gwynedd o'u hadolygiad a gwerthusiad o berfformiad blynyddol Gwynedd 2011-12. Darperir yn ogystal wybodaeth am ymateb Cyngor Gwynedd i'r argymhellion dan sylw.

## 2. Cyd-destun, cefndir a phwrpas Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol AGGCC 2011-12

2.1 Cynhelir adolygiad a gwerthusiad o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn flynyddol gan AGGCC. Bydd yr adroddiad adolygiad sydd yn deillio o'r gwaith yn nodi'r meysydd sydd wedi gwella a meysydd i'w gwella yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn dan sylw.

2.2 Fel rhan o'r broses bydd AGGCC yn rhoi ystyriaeth i ystod helaeth o ffynonellau tystiolaeth ar gael, gan gynnwys y trefniadau i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol gyflwyno adroddiadau yn flynyddol am eu perfformiad, a chynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau. Ystyrir hefyd sylwadau archwilwyr ac arolygwyr eraill, yn ogystal â defnyddio gwaith rheoleiddio AGGCC eu hunain.

2.3 Cyflwynir copi o Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2011/ 2012 yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer Gwynedd fel **Atodiad 1**.

2.4 O ran Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol Gwynedd 2011-12, roedd yr adroddiad yn nodi ar y cychwyn bod,

*"….perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae hyn wedi parhau yn ystod 2011-2012* " a bod

*"…adroddiad y Cyfarwyddwr ar gyfer 2011-12 yn rhoi dadansoddiad cywir o berfformiad y gwasanaeth. Darparodd y cyngor ystod dda o wybodaeth a dadansoddiad aeddfed o'i berfformiad ei hun."*

2.4 Nodwyd gan AGGCC bod y Cyngor wedi gwella ei berfformiad yn y meysydd a nodwyd yn adroddiad AGGCC 2010-11.

2.5 O ran gwelliannau, nodwyd fod angen ysgogi moderneiddio gwasanaethau ataliol i oedolion a sicrhau cyflawni ar newidiadau . Nodwyd hefyd yr angen i sicrhau cydweithio ar bob lefel gydag Iechyd.

## 3. Prif ganfyddiadau Adolygiad a Gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Gwynedd 2011-12

O ran yr adolygiad o berfformiad Gwynedd, adnabod AGGCC feysydd penodol lle'r oedd gwelliant yn y flwyddyn, yn ogystal â meysydd lle oedd angen sicrhau gwelliant. Cyflwynir gwybodaeth am y meysydd oedd wedi gwella yn nhabl 1 isod:

Tabl 1 – Meysydd sydd wedi gwella

| **Gweithgaredd** | **Meysydd sydd wedi gwella** |
|---|---|
| a. Llunio Gwasanaethau | - Cyhoeddi cynllun busnes tair blynedd ar gyfer y cyngor gyda cherrig milltir eglur.<br>- Cyhoeddi'r asesiadau anghenion a'r cynlluniau ar gyfer gwasanaethau anawsterau dysgu a gwasanaethau i bobl hŷn. |
| b. Cael cymorth | - Gwelliant o ran trefniadau rheoli gofal yn y gwasanaethau i oedolion, ac o ran pa mor rhwydd yw cael gafael arnynt |
| c. Y gwasanaethau a ddarperir | - Y cymorth a ddarperir i blant sy'n derbyn gofal gan wasanaeth maethu'r cyngor a chan y cartref preswyl y mae'r cyngor yn ei gomisiynu. |
| ch. Yr effaith ar fywydau pobl | - Sefydlogrwydd y lleoliadau gofal i blant sy'n derbyn gofal. |

Yn nhabl 2 isod, cyflwynir gwybodaeth am y meysydd sydd wedi eu hadnabod gan AGGCC fel rhai sydd angen eu gwella.

Tabl 2 – Meysydd sydd angen eu gwella

| Gweithgaredd | Meysydd sydd angen eu gwella |
|---|---|
| d. Llunio Gwasanaethau | - Rhoi cynlluniau comisiynu ar waith yn brydlon. |
| dd. Cael cymorth | - Mae angen i'r cyngor barhau i wella o ran trefnu cynlluniau addysg ac archwiliadau meddygol a deintyddol yn brydlon i blant sy'n derbyn gofal.<br>- Parhau i wella prydlondeb adolygiadau i blant sy'n derbyn gofal. |
| e. Y gwasanaethau a ddarperir | - Datblygu'r ystod o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau i blant. |
| f. Yr effaith ar fywydau pobl | - Parhau i wella prydlondeb y cynadleddau amddiffyn plant. |
| ff. Y gallu i gyflawni'r gwaith - Cyflawni gwasanaethau cymdeithasol | - Sicrhau bod digon o allu i gyflawni swyddogaethau craidd a gwelliannau angenrheidiol.<br>- Sicrhau goruchwyliaeth reolaidd a chyson i'r staff. |
| g. Y gallu i gyflawni'r gwaith - Gosod cyfeiriad | - Sicrhau y rhoddir y cynlluniau comisiynu ar waith yn brydlon.<br>- Sicrhau bod dyletswyddau statudol y Cyfarwyddwr yn cael eu cyflawni. |

## 4. Camau ymateb Cyngor Gwynedd (fesul materion a amlygwyd gan AGGCC)

Tabl 3 – Camau ymateb Cyngor Gwynedd

| Meysydd sydd angen eu gwella | Camau / Cynnydd yn 2012-13 |
|---|---|
| **Llunio Gwasanaethau**<br>**- Rhoi cynlluniau comisiynu ar waith yn brydlon.** | **i. Cynllun Gweithredu Cynllun Comisiynu Anabledd Dysgu**<br>Mabwysiadwyd y Cynllun Comisiynu Anabledd Dysgu gan Fwrdd y Cyngor ar y 13eg o Ragfyr 2011. Mae'r Cynllun Gweithredu eisoes ar waith.<br><br>**ii. Cynllun Gweithredu Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn**<br>Mabwysiadwyd y Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn gan |

| | |
|---|---|
| | Fwrdd y Cyngor ar y 24ain o Ionawr 2012. Mae'r Cynllun Gweithredu eisoes ar waith.<br><br>**iii. Cynllun Comisiynu Amhariad Corfforol**<br>Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ym Mhorthmadog ar 20fed o Fedi 2012. Mae drafft terfynol o'r Cynllun Comisiynu Amhariad Corfforol wedi ei gwblhau a rhoddwyd cyflwyniad ar brif negeseuon y Cynllun a chanlyniad ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill i Bwyllgor Craffu Gwasanaethau 15 Tachwedd 2012.<br><br>**iv. Cynllun Comisiynu Plant a Phobl Ifanc**<br>Mae drafft terfynol mewn lle a chytundeb ei fod yn cael ei weithredu fel cynllun comisiynu drafft hyd nes bydd yr adolygiad 'cychwyn i'r diwedd' Gwasanaethau Plant wedi dod i ganfyddiadau ac argymhellion ynglŷn â'r dyfodol o fewn y Gwasanaeth. Rhaglenni gwaith cysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu Cynllun Comisiynu mewn gwirionedd eisoes yn eu lle. |
| **Cael cymorth**<br>**- Mae angen i'r cyngor barhau i wella o ran trefnu cynlluniau addysg ac archwiliadau meddygol a deintyddol yn brydlon i blant sy'n derbyn gofal.** | **Trefnu cynlluniau addysg bersonol**<br>O fewn Adran Addysg Cyngor Gwynedd, mae swydd Cydlynydd Addysg ar gyfer Plant Mewn Gofal. Mae'r Cydlynydd yn cynnig cyngor and yn gwneud ymholiadau parthed adnabod ysgol derbyn posib a sicrhau lle yn yr ysgol honno drwy ymgynghori a thrafod gyda Mabwysiadwyr posib, Gweithwyr Cymdeithasol Cyswllt, y cyd-lynydd Addysg yr Awdurdod fydd yn derbyn, os yn berthnasol, a drwy astudio casgliadau Adroddiadau ESTYN diweddar a drwy wneud defnydd o ffynonellau perthnasol eraill o wybodaeth a dogfennaeth.<br><br>Perfformiad Gwynedd o ran trefnu cynlluniau addysg bersonol wedi gostwng yn 2012-13. 50.9% o blant yn derbyn gofal oedd wedi cael trefnu cynllun addysg o fewn 20 diwrnod ysgol o ddod i ofal. Hyn yn cymharu yn wael gyda 86.1% yn 2011-12 a lefel Cymru 2011-12 oedd yn 63.5% .<br><br>50.9% 2012-13 yn seiliedig ar 28 allan o 55 achos. O'r 27 achos hwyr, roedd 19 o'r rhain yn blant mewn ysgolion yng Ngwynedd. Mae hyn yn peri pryder i'r Adran. Mae'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd wedi gofyn am gynllun gweithredu ar y sefyllfa gan yr Adran Addysg (gan mai yr Adran honno sydd â chyfrifoldeb am gysylltu gyda'r ysgolion i ofyn am y Cynlluniau Addysg Personol.)<br><br>Rôl allweddol yma i'r cydlynydd addysg sicrhau a chodi ymwybyddiaeth ymysg ysgolion Gwynedd ynglŷn â |

| | |
|---|---|
| | phwysigrwydd cwblhau cynllun addysg bersonol mewn amser.<br><br>**Trefnu archwiliadau meddygol a deintyddol**<br>Darperir yr wybodaeth yma i Wynedd gan Nyrs Plant Mewn Gofal cyflogedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).<br><br>O ran perfformiad maes **archwiliadau deintyddol**, roedd y canran o'r plant yn derbyn gofal oedd wedi cael eu dannedd wedi'u gwirio gan ddeintydd yn ystod 2011-12 yn 64% a rhagwelir i berfformiad 2012-13 fod oddeutu hyn eto. Mae hyn i gymharu gyda lefel Cymru yn 2011-12 o 82.1%.<br><br>Mae Gwasanaeth Plant a Theuluoedd â Uned Perfformiad a Data yr Adran wedi cymryd camau rhagweithiol er gwella'r broses casglu'r wybodaeth ar gyfer archwiliadau deintyddol a hynny o 2013-14 ymlaen drwy gyfrwng y ffurflen Adolygiadau i Blant.<br><br>O ran perfformiad maes **archwiliadau meddygol,** roedd gostyngiad ym mherfformiad Gwynedd yn 2012-13 i lawr i ddim ond 30.8% o asesiadau iechyd ar gyfer plant mewn gofal wedi eu cynnal yn amserol yn y flwyddyn (o gymharu â lefel Cymru o 81.11% yn 2011-12). Mae hyn yn fater o bryder i'r Adran.<br><br>Mae newidiadau yn nhrefniadau BIPBC wedi effeithio ar y perfformiad hwn. Mae trafodaethau yn mynd rhagddo rhwng Cyngor Gwynedd a BIPBC ond ni ellir datgan fod unrhyw newid cadarnhaol wedi cymryd lle hyd yma er mwyn sicrhau gweld effaith cadarnhaol ar y perfformiad. |
| **Cael cymorth**<br>**- Parhau i wella prydlondeb adolygiadau i blant sy'n derbyn gofal.** | Mae perfformiad 2012-13 o ran cynnal adolygiadau o fewn yr amserlen statudol wedi gostwng o gymharu â 2011-12 (lawr o 83.4% i 75.4%), er yn cydnabod fod niferoedd plant mewn gofal wedi cynyddu.<br><br>459 o adolygiadau yn 2011-12 sydd wedi cynyddu i 543 yn 2012-13. (382 adolygiad yn amserol yn 2011-12 ac 418 adolygiad yn amserol yn 2012-13.)<br><br>Mae hyn yn fater o bwys i'r gwasanaeth a chynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu er mwyn ymateb i'r sefyllfa ohoni. |

| Y gwasanaethau a ddarperir - Datblygu’r ystod o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i oedolion a’r gwasanaethau i blant. | Enghreifftiau o wasanaethau a ddarperir |
|---|---|
| | **Derwen**<br>Tîm Integredig wedi ei sefydlu a’i alw yn Derwen (rhwng Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) ac yn darparu asesiadau a gwasanaethau ar y cyd i blant a phobl ifanc anabl a’u teuluoedd yn unol â safonau a mesurau cytunedig. Darperir gwasanaeth therapi galwedigaethol addas yn uniongyrchol o Derwen.<br><br>**Gwasanaeth Maethu**<br>Cafwyd Archwiliad Maethu gan AGGCC yn Hydref 2012. Roedd yr adroddiad terfynol yn gadarnhaol ac ni wnaethpwyd yr un argymhelliad na gosod gofyniad ar y gwasanaeth. Nodwyd fod safon y gwasanaeth yn dda o ran arweiniad a rheolaeth, o ran cefnogaeth i ofalwyr maeth ac o ran sefydlogrwydd lleoliadau gyda’r ffigwr sefydlogrwydd eleni'r gorau yng Nghymru. O safbwynt gwella gwasanaeth roedd y prif sylwadau’n ymwneud a’r angen i gryfhau ymarfer ymgynghori ( gyda phlant yn benodol ). Roedd y gwasanaeth eisoes wedi adnabod ac adrodd ar yr angen yma.<br><br>Mae llawer iawn o egni a brwdfrydedd i sicrhau fod aelodau o deuluoedd estynedig plant sydd yn dod i ofal yn cael eu hystyried fel gofalwyr maeth ar eu cyfer. Mae gan hyn ei her ei hun gan fod y gofyn cefnogi yn uwch, ac mae hyn yn achosi gofyn ychwanegol ar y tîm, ond y bwriad yw ehangu ar hyn i’r dyfodol.<br><br>**Gofal maeth peripatetig**<br>Gweithredir y cynllun gofal maeth peripatetig, sydd yn golygu fod gan y gwasanaeth ‘rieni maeth symudol’ sydd yn medru symud i mewn i gartref y gofalwyr sydd angen ysbaid gan achosi'r lleiaf posibl o newid i’r plant.<br><br>**Gwasanaeth Integredig i Deuluoedd (IFSS)**<br>Yn lleol mae Bwrdd Cysgodol IFSS mewn lle yng Ngwynedd a Môn. Môn wedi cynnig arwain ar IFSS dros yr ardal a Gwynedd wedi derbyn y cynnig. Trafodaethau parthed strwythur a threfniadau rheolaeth yn mynd rhagddo. Tîm prosiect yn ei le ar draws y ddwy Sir i baratoi at weithredu o fewn IFSS.<br><br>Cabinet Cyngor Gwynedd 30 Ebrill 2013 wedi derbyn yr argymhelliad i sefydlu uned IFSS newydd ar y cyd gydag Ynys Môn. |

| | |
|---|---|
| | **Gwasanaethau pobl hŷn**<br>Bu'r gwasanaeth yn mynd rhagddi gyda'r cynllun o drawsnewid gwasanaethau pobl hŷn gyda phwyslais cynyddol ar hybu a hyrwyddo annibyniaeth drwy ehangu'r ystod o ddarpariaethau sydd ar gael gan bartneriaid megis Age Cymru ac yn fewnol drwy gynlluniau megis galluogi a theleofal.<br><br>**Galluogi**<br>Yn 2012-13, roedd y nifer oedd yn derbyn pecyn o alluogi yn 446. Yn ogystal roedd 47% o achosion oedd wedi derbyn cyfnod o alluogi wedi gadael heb becyn gofal.<br><br>**Uned Galluogi**<br>Gwelwyd cynllun galluogi yn parhau i berfformio yn ôl y gofynion, gyda'r Uned Galluogi ym Mhlas Gwilym, Penygroes (ar gyfer defnyddwyr ag angen ymyrraeth ddwys tymor byr) wedi sicrhau bod 75% o'r achosion wedi dychwelyd adref.<br><br>**Teleofal**<br>Yn 2012-13 darparwyd 379 o becynnau teleofal sylfaenol ac 88 o becynnau teleofal arbenigol.<br><br>**Tai Gofal Ychwanegol**<br>Ym maes oedolion gwelwyd agor Uned Tai Gofal Ychwanegol Awel y Coleg, Y Bala gyda 30 uned; a chychwynnwyd ar y gwaith adeiladu Uned Tai Gofal Ychwanegol Penrhosgarnedd, Bangor.<br><br>**Gofal dydd pobl hŷn**<br>Gwelwyd datblygiadau gan Age Cymru yn Nefyn, lle sefydlwyd canolfan Heneiddio'n Dda, ac yn Y Bala gyda'r amcan o ddarparu gweithgareddau lu i bobl hŷn. Mae'r Adran yn gweithio tuag at sefydlu gwasanaethau dydd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol ar draws gwasanaethau Oedolion. Mae angen iddynt fod yn hyblyg a mor lleol a phosib er mwyn grymuso unigolion a chymunedau gan gadw cydbwysedd rhwng cynnig dewis, annibyniaeth a chefnogaeth. Bydd hyn yn golygu cyd weithio gyda phartneriaid o fewn y trydydd sector ac eraill er mwyn sicrhau ystod ddigonol o ddarpariaeth.<br><br>**Gofal Ysbaid**<br>Nifer o nosweithiau ysbaid wedi cynyddu i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. 2,389 noson yn 2012-13 o gymharu ag 2,263 yn 2011-12. O ran yr uchelgais o sefydlu uned arbenigol ar gyfer gwelyau ysbaid mewn un ardal o Wynedd, anelir i sefydlu peilot erbyn Gorffennaf 2013. |

| | |
|---|---|
| | **Gofalwyr**<br>Gwelwyd yr agenda gofalwyr yn cynyddu gyda mwy a mwy o bwyslais ar gyfarfod ag anghenion gofalwyr anffurfiol.<br><br>Mewn ymgais i sicrhau a chynyddu'r gefnogaeth mae gofalwyr yn ei dderbyn, sefydlwyd swydd gweithiwr cefnogi gofalwyr llawn amser newydd gan 'Carers Outreach' yn Ysbyty Gwynedd Bangor. Cychwynnodd y swydd yn Chwefror 2012 ac mae'r casgliadau cychwynnol yn bositif, gyda llawer o'r gofalwyr yn ddiolchgar dros ben am y gefnogaeth uniongyrchol sydd ar gael iddynt y tu fewn a thu allan i'r ysbyty. Hyd yma mae 110 o ofalwyr yng Ngwynedd wedi derbyn cefnogaeth y gwasanaeth.<br><br>Heb os, mae Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd yn gyfrwng i sicrhau sylw i'r maes yma ac mi fydd yn agenda fydd angen sylw manwl o fewn cynlluniau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd dros y 12 mis nesaf yn sgil y pwyslais cynyddol gan Lywodraeth Cymru. |
| **Yr effaith ar fywydau pobl**<br>**- Parhau i wella prydlondeb y cynadleddau amddiffyn plant.** | Perfformiad 2012/13 o ran cynnal cynadleddau achos o fewn yr amserlen statudol (sef o fewn 15 diwrnod gwaith o'r cyfarfod strategaeth) yn 86.7% yn erbyn targed lleol o 90%. Cyrhaeddiad 2012-13 yn welliant ar gyrhaeddiad Gwynedd 2011-12 o 77.3% a lefel Cymru 2011-12 o 80%.<br><br>Yn dilyn monitro agos gan y gwasanaeth mae perfformiad wedi parhau i wella dros y flwyddyn 2012-13. Bydd y gwasanaeth yn monitro'n agos ac yn derbyn rhesymau gan y cadeirydd ar gyfer pob cynhadledd sy'n hwyr.<br><br>Mesurydd lleol wedi ei ddatblygu ai ddefnyddio yn 2012-13 er mwyn gwella ansawdd asesiadau risg. Y mesurydd newydd yw "Diogelu 2 - Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau." Perfformiad cronnus 2012/13 hyd yma yn 96% (149/155).<br><br>Yn rhan o waith gweithredu fel rhan o wella perfformiad gweithwyr unigol . Mae defnyddio'r model wedi arwain at wella ansawdd adroddiadau gweithwyr i gynadleddau achos. Mae'r mesurydd hwn yn cyfrannu at ymarfer ar sail tystiolaeth leol (local evidence based practice) sydd yn gysylltiedig â chodi safon ymarfer gweithiwr cymdeithasol. Yn ystod chwarter 3 datblygwyd ffurflen ar system wybodaeth yr Adran (RAISE) i'r cadeirydd y cynadleddau achos nodi ac egluro pam nad yw adroddiad y gweithiwr wedi dangos ansawdd. |

| | |
|---|---|
| **Y gallu i gyflawni'r gwaith - Cyflawni gwasanaethau cymdeithasol**<br>**- Sicrhau bod digon o allu i gyflawni swyddogaethau craidd a gwelliannau angenrheidiol.** | Adolygiad gan y Cyfarwyddwr Statudol wedi digwydd yn ystod 2012/13. Rhaglen waith yn cael ei ddatblygu er mwyn ymateb yn seiliedig ar y strwythur, systemau, sgiliau staff a diwylliant rheoli. Angenrheidiol bod yr Adran yn gallu ymateb i heriau'r dyfodol mewn ffordd gynaliadwy ac effeithiol.<br><br>Mae'r awdurdod wedi sefydlu Panel Strategol Corfforaethol i sicrhau mynd i'r afael â materion diogelu sy'n berthnasol i'r argymhellion a gododd o arolygiad ar y cyd o wasanaethau addysg yn Sir Benfro. Gwelwyd bod y model hwn yn effeithiol a bydd yn cael ei gynnal er mwyn edrych ar faterion diogelu eraill sy'n ymwneud â phlant ac oedolion. |
| **Y gallu i gyflawni'r gwaith - Cyflawni gwasanaethau cymdeithasol**<br>**- Sicrhau goruchwyliaeth reolaidd a chyson i'r staff.** | Polisi a chyfundrefnau ffurfiol ar gyfer goruchwylio staff proffesiynol mewn lle. Trefniadau gweithredu a monitro mewn lle ond nodir bod angen parhau i adolygu a miniogi trefniadau fel bo angen er mwyn sicrhau gwella perfformiad o ran goruchwyliaeth reolaidd. |
| **Y gallu i gyflawni'r gwaith - Gosod cyfeiriad**<br>**- Sicrhau y rhoddir y cynlluniau comisiynu ar waith yn brydlon.** | Gweler yr wybodaeth sydd wedi ei gynnwys ar gyfer "Llunio Gwasanaethau - Rhoi cynlluniau comisiynu ar waith yn brydlon" yn Nhabl 3. |
| **Y gallu i gyflawni'r gwaith - Gosod cyfeiriad**<br>**- Sicrhau bod dyletswyddau statudol y Cyfarwyddwr yn cael eu cyflawni.** | Archwiliad i Rôl Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd wedi ei gynnal gan AGGCC yn Rhagfyr 2012.<br><br>Un o brif ddyletswyddau'r Cyfarwyddwr Statudol yw sicrhau bod trefniadau a strwythurau addas mewn lle ar gyfer cyflawni'r gofynion statudol. Amlygwyd i'r archwilwyr bod angen gwneud newidiadau i'r trefniadau presennol o ran capasiti a lefel arweinyddiaeth yn y maes. Mae'r mater yn derbyn sylw gan Dim Rheoli'r Cyngor ynghyd a'r Cabinet, a disgwylir y bydd trefniadau mwy addas a chynaliadwy mewn lle yn fuan yn 2013/14. |

## 5. Cyfeiriad ymdrechion i'r dyfodol

5.1 Yn Ionawr 2013 lansiwyd cam cyntaf Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) gyda'r bwriad o osod fframwaith cyfreithiol cydlynol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru a thrawsnewid gwasanaethau.

5.2 Mae’r Bil yn cynnwys chwe phrif faes sef:

- Hyrwyddo lles pobl mewn angen gan gynnwys gofalwyr
- Hyrwyddo llais a rheolaeth yr unigolyn mewn perthynas â mynediad i wasanaethau , asesiadau a chymhwysedd
- Gosod cyfeiriad cenedlaethol cryf ac atebolrwydd ar lefel leol
- Diogelu ac amddiffyn
- Rheoleiddio ac arolygu
- Gwasanaethau (Mabwysiadu a phontio ar gyfer plant a phobl ifanc anabl)

5.3 Bydd hyn yn golygu symud ein pwyslais yma yng Ngwynedd o’r gwasanaethau a darpariaethau traddodiadol a chanolbwyntio ar:

- Sicrhau fod llais dinasyddion, defnyddwyr a gofalwyr yn ganolog i gynllunio , datblygu a gwerthuso gwasanaethau ynghyd a threfniadau gofal unigol
- Datblygu pob agwedd o ymarfer comisiynu a datblygu’n perthynas gyda darparwyr
- Gwella perfformiad ac ymarfer yn barhaus gan ganolbwyntio ar ganlyniadau.
- Sicrhau gweithlu gyda’r sgiliau angenrheidiol a rheolwyr yn gallu arwain newidiadau.
- Cryfhau ‘r gallu i ddiogelu plant , pobl ifanc ac oedolion bregus.
- Cyfannu gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd , a datblygu modelau gwasanaethau newydd
- Datblygu’r agenda ataliol a’r agenda o hyrwyddo annibyniaeth.

## 6. Diweddglo

6.1 Nodwyd yn Adolygiad a Gwerthusiad 2011-12 AGGCC bod y Cyngor wedi gwella ei berfformiad yn y meysydd a adnabuwyd gan AGGCC yn y flwyddyn flaenorol. Er y gwelwyd newidiadau sylweddol o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn ffyddiog y llwyddodd y Gwasanaeth drwy’r cyfan i gynnal perfformiad ac i barhau i gynnig gwasanaeth o safon.

6.2 Gwelwyd cynnydd neu gynnal perfformiad mewn nifer sylweddol o feysydd yn 2012-13 gan gynnwys ymateb i gyfeiriadau, cynnal adolygiadau, cynadleddau amddiffyn, ymweliadau statudol a gofalwyr ifanc. Fodd bynnag cydnabyddir fod dirywiad wedi bod mewn perfformiad meysydd a gafodd eu hadnabod gan AGGCC fel rhai i wella ac yn sicr rhaid cymryd camau rhagweithiol a chadarnhaol i ymateb i hyn. Yn sicr bydd y materion yma’n derbyn sylw rheolwyr y Gwasanaeth .

6.3 Yn sicr fe welwn newidiadau sylweddol dros y blynyddoedd nesaf a gwn y bydd disgwyliadau o’r Gwasanaeth yn cynyddu. Yr uchelgais yw sicrhau gwasanaeth o’r safon uchaf un - gwasanaeth ardderchog - gyda staff yn hunan-reoli oherwydd eu hawch i gyrraedd y nod, a rheolwyr yn gweithredu fel arweinwyr yn y broses o drawsnewid. Yn fwyaf arbennig fe welwn y gwasanaeth yn ffurfio partneriaeth gyda defnyddwyr, gofalwyr a dinasyddion Gwynedd er mwyn cynllunio’n effeithiol ar gyfer y dyfodol. Mae’r agenda’n un heriol ond rwy’n argyhoeddedig fod y gwasanaeth a’r adran yn barod i wynebu’r her honno.

**Papurau cefndir**

1. Atodiad 1 - Adolygiad a Gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Gwynedd 2011-12

Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2011 - 2012

**Enw'r Awdurdod Lleol:** **Cyngor Gwynedd**

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi meysydd sydd wedi gwella a meysydd i'w gwella yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn 2011- 12**

## Crynodeb:

Mae perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae hyn wedi parhau yn ystod 2011-12.

Mae cynllun tair blynedd y cyngor a strategaethau comisiynu'r gwasanaethau cymdeithasol yn darparu gweledigaeth a chyfeiriad i'r gwasanaeth. Mae angen cefnogaeth wleidyddol er mwyn rhoi'r cynlluniau hyn ar waith. Ceir risgiau ariannol ac o ran y gwasanaeth os nad yw'r cyngor yn gweithredu ei gynlluniau'n brydlon.

Mae adroddiad y Cyfarwyddwr ar gyfer 2011-12 yn rhoi dadansoddiad cywir o berfformiad y gwasanaeth. Darparodd y cyngor ystod dda o wybodaeth a dadansoddiad aeddfed o'i berfformiad ei hun.

Ceir gwaith partneriaeth da ar lefel ymarferol. Ceir cyfyngiadau i'r berthynas gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mae hyn wedi rhwystro datblygiad gwasanaeth mewn rhai meysydd.

Mae gan y cyngor rai gwasanaethau da megis y rhai ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ond mae angen i'r cyngor barhau i wella'r prosesau asesu a rheoli gofal.

Mae Cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol wedi newid yn ddiweddar (mis Awst 2012).

## Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Yr angen am ysgogiad a chefnogaeth effeithiol er mwyn darparu gwasanaethau ataliol, wedi'u moderneiddio i oedolion, ynghyd â diffyg gallu i gyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol

- Hanes o systemau gwan ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r rheolwyr, sy'n golygu nad yw'r trefniadau rheoli perfformiad a goruchwyliaeth yn effeithiol
- Gallu parhaus i ddylanwadu ar waith cynllunio strategol sy'n canolbwyntio ar ardaloedd penodol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Ymateb i'r meysydd y nodwyd y llynedd bod angen eu datblygu:**

Mae'r cyngor wedi gwella ei berfformiad yn y meysydd a nodwyd yn adroddiad AGGCC y llynedd. Mae adroddiad eleni'n nodi'r meysydd y mae'n allweddol i'r cyngor barhau i wella ei berfformiad.

**Arferion da a nodwyd:**

Ym mis Hydref 2011 enillodd y cyngor ddau ddyfarniad gan y Cyngor Gofal am rannu arfer da. Rhoddwyd y dyfarniad cyntaf am brosiect a oedd yn monitro gweithwyr gofal cymunedol yn electronig. Roedd wedi ei gynllunio gan y gwasanaeth i fodloni anghenion y cyngor, gan gyfuno system reoli ariannol a thechnoleg symudol. Rhoddwyd yr ail ddyfarniad am fframwaith risg i gynorthwyo wrth asesu niwed sylweddol i blant. Nod y fframwaith oedd gwella cysondeb a throthwyon wrth wneud penderfyniadau. Mae'r model wedi ei fabwysiadu gan gynghorau eraill yng Nghymru a Lloegr ac wedi ei gyflwyno mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol.

Cyflwynodd y Prif Weinidog, Carwyn Jones, wobr i'r cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am eu gwaith yn hybu cydweithrediad rhwng asiantaethau er mwyn gwella gwasanaethau arbenigol i blant.

**Arolygiadau safle a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:**

Ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau yn gwerthuso perfformiad y cyngor yn ystod 2011-12.

Mae AGGCC wedi dechrau ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaethau anawsterau dysgu ac iechyd meddwl i oedolion. Mae'r gwaith hwn yn parhau. Hyd yn hyn, mae defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl wedi amlygu bod angen llety addas a chymorth i ddatblygu sgiliau byw yn annibynnol.

**Meysydd ar gyfer gwneud gwaith dilynol gan AGGCC y flwyddyn nesaf:**

- Swyddogaeth Cyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol (mae hyn yn rhan o adolygiad cenedlaethol gan AGGCC).
- Gweithredu cynlluniau comisiynu'r cyngor.
- Y broses o wneud penderfyniadau ac ansawdd asesiadau yn y gwasanaethau plant a'r rhesymau dros ailatgyfeirio.
- Y gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr.

- Y trefniadau rheoli perfformiad

## PERFFORMIAD

### Llunio Gwasanaethau:

Mae cynllun tair blynedd y cyngor yn rhoi cyfeiriad eglur ar gyfer gwella a moderneiddio'r gwasanaethau cymdeithasol.  Mae'r cynllun yn cwmpasu'r cyfnod 2011-14 ac mae ynddo gerrig milltir eglur y mae angen eu bodloni.  Mae'r cyngor wedi adolygu'r cynllun yn rheolaidd.

**Oedolion**

Mae'r cyngor wedi cyhoeddi ei asesiadau anghenion a'i strategaethau comisiynu ar gyfer gwasanaethau anawsterau dysgu a gwasanaethau i bobl hŷn ar gyfer 2011-16.  Mae'r gwaith hwn yn cynnwys asesiad trylwyr o lefel yr angen a'r galw sydd wedi ei ragweld.  Ymgynghorwyd yn eang gyda defnyddwyr gwasanaeth, cymunedau, darparwyr a grwpiau cynrychiadol er mwyn cyfrannu at yr asesiad o anghenion.

Bydd y cyngor yn datblygu cynlluniau comisiynu ar gyfer gwasanaethau anabledd corfforol ac anabledd ar y synhwyrau yn ystod 2012-13.

Mae'r cyngor wedi sefydlu systemau i fonitro a gwerthuso perfformiad yn unol â'r strategaethau hyn.  Bydd y systemau'n darparu gwybodaeth yn ystod 2012-13 a fydd yn dangos i'r cyngor pa mor ddilys yw'r tybiaethau y seiliwyd ei strategaethau arnynt.

Mae'r cyngor wedi ceisio cefnogaeth allanol wrth graffu ar y cynlluniau comisiynu. Mae'r gwaith craffu hwn wedi rhoi sicrwydd i'r cyngor bod y gwaith a wneir yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

Mae gan y cyngor nifer fawr o ffrydiau gwaith wedi eu sefydlu i drawsnewid a moderneiddio'r gwasanaethau i oedolion.  Nododd y cyngor fod angen gwella'r modd y mae'n rhoi ei strategaethau ar waith.   Mewn rhai meysydd, nid oes gan y cyngor gynlluniau manwl sy'n disgrifio sut y bydd yn gweithredu'r strategaethau. Hefyd, nid oes ganddo ddigon o reolwyr bob amser i gyflawni'r newid gofynnol.

Oherwydd yr ymateb gwleidyddol ac ymateb y cyhoedd i strategaeth y cyngor ar gyfer pobl hŷn, nid yw'r gwaith wedi datblygu yn ôl y bwriad yn ystod 2011-12.  O ganlyniad, bydd raid i'r cyngor gynyddu cyflymder y newid yn ystod 2012-13 er mwyn cyflawni'r cynlluniau o ran comisiynu a moderneiddio.

Mae trefniadau'r cyngor ar gyfer monitro contractau yn gwella. Ceir cyfathrebu da rhwng AGGCC a'r swyddog monitro contractau sy'n cydgysylltu ymweliadau â gwasanaethau ac yn rhannu gwybodaeth briodol.

Mae'r cyngor yn nodi ei fod wedi datblygu system ar sail canlyniadau ar gyfer monitro'r gwasanaethau a gomisiynir gan gartrefi gofal unigol. Mae'r system yn blaenoriaethu'r cartrefi sydd â'r mwyaf o risg.

**Plant**

Bydd y cyngor yn datblygu cynlluniau comisiynu ar gyfer y gwasanaethau i blant yn ystod 2012-13. Mae cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yn y boblogaeth yn uwch nag mewn awdurdodau tebyg. Gwelodd y cyngor gynnydd yn y galw am y gwasanaethau hyn yn ystod 2011-12. Fe allai hyn awgrymu bod angen i'r cyngor sicrhau cydbwysedd gwell rhwng y gwasanaethau ataliol a'r gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal.

Parhaodd y cyngor i ddatblygu rhai gwasanaethau cymorth yn ystod 2011-12. Datblygodd wasanaethau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, hyfforddiant nac addysg gyda'r bartneriaeth diogelwch cymunedol. Mae hefyd wedi datblygu gwasanaethau cyswllt ar draws y sir a gwasanaeth maethu peripatetig.

Mae'r cyngor wedi cyflwyno cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i ddatblygu cyfleuster gofal seibiant ac ysgol i blant ag anableddau. Mae'r cyngor wedi cytuno hefyd i ddatblygu gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'r cyngor wedi dadansoddi'r angen i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer plant a arferai dderbyn gofal, a bydd yn dyfarnu contract i ddarparwr i ddatblygu gwasanaethau llety ymhellach yn ystod 2012-13.

**Meysydd sydd wedi gwella**

- Cyhoeddi cynllun busnes tair blynedd ar gyfer y cyngor gyda cherrig milltir eglur.
- Cyhoeddi'r asesiadau anghenion a'r cynlluniau ar gyfer gwasanaethau anawsterau dysgu a gwasanaethau i bobl hŷn.

**Meysydd i'w gwella**

- Rhoi cynlluniau comisiynu ar waith yn brydlon.

**<u>Cael cymorth:</u>**

Mae gan y cyngor wefan â gwybodaeth dda arni, yn ogystal â thaflenni ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar gael a sut i gysylltu â'r adran.

**Oedolion**

Y tîm cynghori ac asesu yw'r pwynt mynediad ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwasanaethau i oedolion. Symudodd y tîm i leoliad ym Mhenrhyndeudraeth yn ystod y flwyddyn, ac mae'r newid hwn wedi gwella gallu'r cyngor i ymateb i geisiadau am wasanaeth. Ceir trefniadau ar wahân ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae'r oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbyty wedi lleihau'n sylweddol. Roedd hwn yn faes i'w wella y llynedd. Cyflawnwyd hyn yn bennaf trwy sefydlu systemau gwybodaeth mwy effeithiol.

Mae cyfradd y bobl hŷn sy'n derbyn cymorth mewn cartrefi gofal wedi parhau i ostwng. Mae hyn yn gadarnhaol ac mae'n dod â pherfformiad y cyngor yn agosach at y cyfartaledd ledled Cymru. Roedd hwn yn faes i'w wella yn adroddiad y llynedd.

Mae cyfradd y bobl hŷn sy'n derbyn cymorth yn y gymuned wedi gostwng yn sylweddol unwaith eto yn ystod 2011-12, a gallai hyn fod yn destun pryder. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn nodi bod hyn yn cyd-fynd ag athroniaeth y cyngor o gefnogi annibyniaeth ac yn adlewyrchu'r ffaith y gwnaed newidiadau yn y prosesau adrodd. Mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn ei archwilio gyda'r cyngor yn ystod 2012-13.

Mae'r cyngor wedi gwella canran yr adolygiadau o gynlluniau gofal a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae hyn unwaith eto yn rhan o dueddiad tymor hirach o welliant sy'n rhagori ar y lefelau gwella cyfartalog. Mae'r cyngor yn dweud y cyflwynwyd her fewnol trwy wneud mwy o ddefnydd o baneli mewnol, a bod hyn wedi gwella ansawdd y prosesau gwneud penderfyniadau ac wedi arwain at ddefnyddio trothwyon yn fwy cyson.

Gwelir tueddiad eglur o welliant o ran darparu asesiadau'n brydlon, ac mae'r perfformiad bellach yn agosach at gyfartaledd Cymru.

Roedd rhestrau aros yn ystod 2011-12 ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a therapi galwedigaethol.

Mae'r cyngor yn hysbysu bod ei allu i leihau'r rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth iechyd meddwl yn dibynnu ar y cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn ôl y cyngor, mae proses ailstrwythuro'r bwrdd iechyd a'r dull gweithio rhanbarthol wedi achosi oedi wrth leihau amserau aros.

Un maes i'w wella y llynedd oedd sicrhau bod gwasanaethau therapi galwedigaethol ar gael yn rhwyddach. Adolygodd y cyngor y modd y mae'n darparu therapi galwedigaethol yn ystod y flwyddyn. Mae wedi datblygu prosesau mwy syml ac wedi sicrhau y cwblheir mân addasiadau'n fwy prydlon. Mae'r cyngor

wedi creu swydd ychwanegol i ymdrin ag ymholiadau am wasanaethau, ac wedi datblygu trefniadau gyda'r gymdeithas dai leol sy'n osgoi dyblygu gwaith ac yn darparu addasiadau prydlon. Mae'r cyngor hefyd wedi cynnal diwrnodau agored ledled y sir i hybu ymwybyddiaeth am y cyfarpar sydd ar gael.

Canfuwyd nifer gymharol fach o ofalwyr gan y cyngor. Fodd bynnag, cynigiwyd asesiad i'r holl ofalwyr a ganfuwyd. Mae'r cyngor wedi bod yn datblygu'r wybodaeth ar gyfer gofalwyr, ac mae swydd ysbyty wedi ei sefydlu i hybu ymwybyddiaeth am faterion gofalwyr. Bydd AGGCC yn dymuno edrych ar y cymorth a gynigir i ofalwyr yn ystod 2012-13.

**Plant**

Un pwynt mynediad sydd i'r gwasanaethau i blant. Mae'r cyngor wedi cynyddu nifer y penderfyniadau a wneir mewn diwrnod, a bellach mae bron pob un o'r atgyfeiriadau yn bodloni'r amserlen hon. Mae hwn yn welliant sylweddol ac mae'n well na'r targed a osodwyd gan y cyngor.

Bu gan y gwasanaethau i blant lefel uchel o atgyfeiriadau ac ailatgyfeiriadau ers blynyddoedd lawer. Llwyddwyd i ostwng lefel yr ailatgyfeiriadau yn ystod 2010-11 ond cynyddodd eto yn ystod 2011-12. Ers mis Hydref 2011 mae systemau cofnodi'r cyngor yn gallu gwahaniaethu rhwng atgyfeiriadau a hysbysiadau. Mae'n anodd gwerthuso perfformiad o ganlyniad i'r newid hwn a wnaed hanner ffordd trwy'r flwyddyn. Mae'r cyngor wedi rhoi sylw i wella arferion o ran cynnal asesiadau ac ysgrifennu adroddiadau, a dylai hyn wella perfformiad yn y tymor hirach a gostwng y gyfradd ailatgyfeirio. Mae'r cyngor hefyd wedi bod yn datblygu'r fframwaith risg a gallai hwn hefyd gyfrannu at y gwelliant gofynnol. Mae'r cyngor yn parhau i ddyrannu nifer fawr o achosion a chynnal nifer fawr o asesiadau. Bydd AGGCC yn dymuno edrych ar lefel uchel y gweithgarwch ac ansawdd yr asesiadau eto gyda'r cyngor yn ystod 2012-13.

Mae'r cyngor yn gwneud yn dda mewn agweddau ar gynllunio gofal i blant sy'n derbyn gofal. Yn ystod 2011-12, fel yn y blynyddoedd diweddar, roedd cynllun gofal wedi ei sefydlu erbyn i bron pob lleoliad ddechrau, ac erbyn yr ail adolygiad, roedd cynllun sefydlogrwydd wedi ei sefydlu ar gyfer bron pob achos.

Am rai blynyddoedd, mae'r cyngor wedi gwneud yn wael o ran trefnu adolygiadau statudol prydlon ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Gwelwyd gwelliant yn ystod 2011-12 er gwaethaf cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Roedd hwn yn faes i'w wella yn yr adroddiadau blynyddol blaenorol ac mae'n faes y mae'n rhaid i'r cyngor barhau i'w wella. Mae angen i'r cyngor barhau i wella hefyd o ran trefnu cynlluniau addysg ac archwiliadau meddygol a deintyddol yn brydlon.

Lansiwyd siarter gofalwyr ifanc Gwynedd ym mis Mehefin 2011. Mae'r siarter yn darparu gwybodaeth i ofalwyr ifanc am eu hawliau fel gofalwyr ac mae ar gael i ofalwyr ifanc ledled y sir. Mae'r gwasanaeth gofalwyr ifanc a gynhelir gan

Gweithredu Dros Blant yn darparu cymorth uniongyrchol i ofalwyr ifanc a thri fforwm ledled y sir.

**Maes sydd wedi gwella**

- Gwelliant o ran trefniadau rheoli gofal yn y gwasanaethau i oedolion, ac o ran pa mor rhwydd yw cael gafael arnynt.

**Meysydd i'w gwella**

- Mae angen i'r cyngor barhau i wella o ran trefnu cynlluniau addysg ac archwiliadau meddygol a deintyddol yn brydlon i blant sy'n derbyn gofal.
- Parhau i wella prydlondeb adolygiadau i blant sy'n derbyn gofal.

## <u>Y gwasanaethau a ddarperir:</u>

### Oedolion

Mae'r cyngor yn cydnabod ei fod yn dibynnu gormod ar wasanaethau preswyl, traddodiadol a gynhelir gan y cyngor. Rhaid i'r cyngor hefyd barhau i wella ei ddull o reoli'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae gan y cyngor anhawster parhaus o ran cadw rheolwyr sydd â'r profiad a'r cymwysterau priodol yn y cartrefi gofal.

Bydd cynllun tai gofal ychwanegol cyntaf y cyngor yn agor ym mis Hydref 2012, a bydd hwn yn gwella'r ystod o wasanaethau sydd ar gael.

Mae'r cyngor wedi symud ymlaen o ran moderneiddio'r ddarpariaeth breswyl i oedolion sydd ag anableddau dysgu. Mae'r cyngor wedi cau un cartref ac mae'n bwriadu gwella ansawdd y gwasanaethau sy'n weddill a datblygu cartrefi gyda chymdeithas dai i gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol.

Mae'r cyngor yn nodi bod y gwasanaeth galluogi bellach yn integredig a'i fod ar gael ar draws y gwasanaethau i oedolion. Mae'r cyngor yn hysbysu bod swyddogion galluogi arbenigol wedi eu hyfforddi a bod hyn wedi arbed arian yn sgil prosesau mwy effeithlon. Mae pob atgyfeiriad newydd, heblaw am bobl sydd â dementia difrifol neu salwch terfynol, yn dechrau gyda phecyn galluogi. Yn ystod 2011-12, nid oedd angen cymorth pellach, neu llwyddwyd i leihau'r pecyn cymorth, ar gyfer dros hanner yr achosion a dderbyniodd becyn galluogi. Darparodd y cyngor nifer sylweddol fwy o becynnau galluogi na'i darged ac mae'r targed wedi ei godi eto ar gyfer 2012-13.

Un argymhelliad yn adroddiad y llynedd oedd y dylid darparu mwy o gymorth yn y gymuned. Mae Age Cymru wedi ehangu'r cymorth anffurfiol y mae'n ei gynnig i bobl hŷn ledled y sir. Mae'r cyngor wedi datblygu ei ddefnydd o wasanaethau

gofal dydd i bobl â dementia.  Mae cynnydd wedi bod yn y defnydd o deleofal, yn enwedig mewn achosion cymhleth.

Mae'r cyngor wedi datblygu nifer o fentrau sy'n cyfrannu at gynyddu'r ystod o wasanaethau yn y gymuned.  Mae'r rhain wedi dechrau, neu bwriedir iddynt ddechrau yn ystod 2012-13.  Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys y gwasanaeth gofal dydd i oedolion ag anawsterau dysgu yn Arfon sy'n hybu annibyniaeth drwy waith grŵp â phwyslais ar broblemau a sgiliau.
Ni ddechreuwyd gweithredu'r ganolfan gofal dydd arbenigol i bobl â dementia yn ystod 2011-12 oherwydd oedi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr cyn darparu staff allweddol.

Mae angen i'r cyngor barhau ei waith o ddatblygu ac ehangu'r ystod o wasanaethau yn y gymuned.

**Plant**

Mae ystod y gwasanaeth cymorth i deuluoedd yn gyfyngedig. Bwriedir datblygu'r rhain fel rhan o gynlluniau comisiynu'r cyngor ar gyfer y gwasanaethau i blant yn ystod 2012-13.

Canfu arolygiad AGGCC o wasanaeth maethu'r cyngor fod y gwasanaeth wedi parhau i gael ei reoli'n effeithiol yn ystod 2011-12.  Dywedodd yr arolygydd hefyd fod y gwasanaeth wedi gwneud yn dda o ran cynnal asesiadau trylwyr o ofalwyr sy'n berthnasau, cefnogi gofalwyr, a sefydlu paneli cadarn i asesu ymgeiswyr. Mae'r cyngor yn hysbysu bod y gwasanaeth wedi bodloni ei darged o ugain cofrestriad newydd yn ystod y flwyddyn.  Nododd arolygydd AGGCC fod y gwasanaeth yn mabwysiadu dulliau arloesol o recriwtio.  Mae twf ac ansawdd y gwaith yn dangos bod y gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Ngwynedd.

Mae'r cyngor yn comisiynu Gweithredu Dros Blant i reoli cartref plant ar ei ran. Roedd arolygiad blynyddol AGGCC yn canolbwyntio ar brofiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.  Siaradodd yr arolygydd â'r holl bobl ifanc a oedd yn byw yn y cartref.  Nodwyd sylwadau cadarnhaol iawn ynglŷn ag ansawdd y gofal a'r cymorth y mae'r staff yn ei roi – nododd y bobl ifanc fod y staff yn buddsoddi amser, yn dangos diddordeb ynddynt ac yn eu trin â pharch.  Barn yr arolygydd oedd bod y cartref yn darparu gofal o safon dda iawn i'r bobl ifanc sy'n byw yno.

Mae'r cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaeth integredig i blant ag anableddau.  Cytunwyd ar y trefniadau'n ffurfiol yn ystod 2011-12.

**Maes sydd wedi gwella**

- Y cymorth a ddarperir i blant sy'n derbyn gofal gan wasanaeth maethu'r cyngor a chan y cartref preswyl y mae'r cyngor yn ei gomisiynu.

**Maes i'w wella**

- Datblygu'r ystod o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau i blant.

## <u>Yr effaith ar fywydau pobl:</u>

### Oedolion

Gwelwyd gwelliant sylweddol yn ystod 2011-12 o ran yr achosion amddiffyn oedolion lle roedd y risg yn cael ei reoli; roedd hwn wedi bod yn faes i'w wella. Y rheswm am y gwelliant oedd bod y cyngor wedi ailystyried y diffiniad o risg sy'n cael ei reoli ac wedi archwilio ffeiliau unigol. Canfu'r cyngor mai'r rheswm, mewn rhai sefyllfaoedd lle nad oedd y risgiau'n cael eu rheoli, oedd bod yr oedolyn agored i niwed wedi gwrthod y cymorth a gynigiwyd.

Yn ystod 2011-12 profiad AGGCC o'r cyngor oedd ei fod yn cyfathrebu'n dda ac yn gweithredu'r gweithdrefnau i amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn effeithiol. Canfu AGGCC hefyd fod cyfarfodydd wedi eu galw yn briodol i symud pryderon i fyny i lefel uwch, a bod penderfyniadau eglur wedi eu gwneud.

Ni dderbyniodd y cyngor unrhyw geisiadau am asesiad dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn ystod 2011-12. Trefnodd y cyngor hyfforddiant yn y maes gwaith hwn cyn ac yn ystod 2011-12. Bydd hwn yn faes i AGGCC edrych arno gyda'r cyngor yn ystod 2012-13.

Bydd AGGCC yn dymuno derbyn eglurhad ynglŷn â'r gostyngiad yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl sy'n defnyddio gofal preswyl, a'r cynnydd yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth anabledd dysgu sy'n defnyddio cartrefi gofal.

### Plant

Mae dangosyddion perfformiad y gwasanaethau i blant yn parhau i wella.

Cynhelir cynadleddau amddiffyn plant yn fwy prydlon. Mae'n ofynnol i'r cyngor barhau i wella prydlondeb cynadleddau cychwynnol amddiffyn plant.

Mae gwaith da'r cyngor ym maes cynllunio gofal dros y blynyddoedd diwethaf, ac ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael, wedi sicrhau rhai canlyniadau da i blant sy'n derbyn gofal gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r nifer o weithiau y bu raid i blant sy'n derbyn gofal newid ysgol wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. Gwelwyd perfformiad da o ran darparu sefydlogrwydd mewn lleoliadau. Yn ystod 2011-12 gan y cyngor yr oedd y canran isaf yng Nghymru o blant a oedd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn. Mae lefelau presenoldeb yn yr ysgol ymhlith y plant sy'n derbyn gofal ymysg yr uchaf yng Nghymru. Roedd cymwysterau allanol cyfartalog y plant sy'n derbyn gofal yn sylweddol uwch nag unrhyw sir arall yng Nghymru.

Mae gwella'r canlyniadau i blant a arferai dderbyn gofal wedi bod yn faes i'r cyngor ei wella. Yn ystod 2011-12 gwelwyd gwelliant yn y maes gwaith hwn. Cadwodd y cyngor mewn cysylltiad â phob un ond un o'r bobl ifanc berthnasol, ac roedd pob un mewn llety priodol. Gwelwyd gwelliant cyson dros y blynyddoedd diweddar yng nghanran y bobl ifanc berthnasol y mae'r cyngor yn gwybod eu bod mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

**Maes sydd wedi gwella**

- Sefydlogrwydd y lleoliadau gofal i blant sy'n derbyn gofal.

**Maes i'w wella**

- Parhau i wella prydlondeb y cynadleddau amddiffyn plant.

**<u>Y gallu i gyflawni'r gwaith</u>**

**<u>Cyflawni gwasanaethau cymdeithasol:</u>**

Mae'r cyngor yn bwriadu arbed 1.8 miliwn o bunnoedd yn y gwasanaeth dros dair blynedd gan ddechrau yn 2011. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi rheoli ei wariant yn ystod 2011-12 ac wedi cadw o fewn y gyllideb o £60,863,000.

Mae'r cyngor wedi cynnal asesiad cychwynnol o'i allu i gyflawni'r gwaith. Mae'r dadansoddiad yn cydnabod bod meysydd gwaith nad ydynt yn cael eu datblygu oherwydd diffyg gallu. Mae'r rhain yn cynnwys trawsnewid gwasanaethau. Mae'n ofynnol i'r cyngor ddarparu gallu digonol er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â methu â chyflawni ei gynlluniau i foderneiddio'r gwasanaethau.

Mae'r cyngor wedi nodi problemau o ran y gallu i gyflawni ei swyddogaethau statudol craidd yn enwedig o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant ac adolygu'r trefniadau gofal i blant sy'n derbyn gofal ganddo. Mae'r cyngor wedi gwella ei berfformiad yn y meysydd hyn ac mae angen iddo sicrhau nad yw diffyg gallu yn amharu ymhellach ar y gwelliannau gofynnol.

Mae'r staff yn derbyn cefnogaeth ac maent yn chwarae rhan bwysig wrth wella gwasanaethau. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys arolwg staff blynyddol,

cyfarfodydd ymgynghori â'r staff ddwywaith y flwyddyn a phroses ar gyfer awgrymu gwelliannau. Roedd adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr yn defnyddio gwybodaeth a gafwyd yn sgil digwyddiadau ymgynghori â'r staff, sy'n caniatáu iddynt gyfrannu tuag at werthuso perfformiad y gwasanaeth.

Mae'r cyngor yn hysbysu bod y system rheoli perfformiad wedi ei sefydlu'n dda, a bod rhaglen wedi'i threfnu ar gyfer cynnal archwiliadau o fewn y gwasanaethau. Mae'r cyngor yn hysbysu bod y wybodaeth rheoli perfformiad a'r data a gesglir yn fwy cywir bellach, yn y gwasanaethau i blant a'r gwasanaethau i oedolion.

Nodwyd yn flaenorol gan AGGCC bod angen i'r cyngor wella'r drefn o oruchwylio'r staff yn rheolaidd ac yn gyson. Mae'r cyngor wedi datblygu cronfa ddata a fydd yn darparu'r wybodaeth briodol am berfformiad ond nid yw wedi cynnal archwiliad o ansawdd yr oruchwyliaeth hyd yn hyn.

Mae'r cyngor wedi datblygu rhaglen o flaenoriaethau yn unol ag anghenion y gwasanaeth. Mae'r cyngor wedi datblygu "cardiau adroddiad" sy'n gwerthuso perfformiad yn effeithiol.

Mae'r cyngor yn arwain datblygiad systemau technoleg gwybodaeth gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

Mae'r cyngor yn dangos tystiolaeth ei fod yn parhau i wella o ran llywodraethu gwybodaeth. Parhaodd y rhaglen waith y mae'r cyngor wedi ei sefydlu yn ystod 2011-12 gan ddarparu rhagor o hyfforddiant i'r staff a datblygu'r grŵp llywodraethu gwybodaeth. Nododd y cyngor fod angen gwella'r gallu i gyfathrebu'n ddiogel yn allanol ar e-bost.

Ceir tystiolaeth o berthynas waith dda gyda'r bwrdd iechyd o fewn y gwasanaethau ar lefel leol. Nid yw'r berthynas ar lefel uwch wedi aeddfedu'n llawn ers sefydlu Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac mae hyn wedi achosi oedi ac anawsterau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'r cyngor yn nodi bod mwy o gydweithio bellach, a chymerwyd cam ymlaen trwy gadarnhau penodiadau allweddol yn y bwrdd iechyd.

**Meysydd i'w gwella**

- Sicrhau bod digon o allu i gyflawni swyddogaethau craidd a gwelliannau angenrheidiol.
- Sicrhau goruchwyliaeth reolaidd a chyson i'r staff.

**<u>Gosod cyfeiriad:</u>**

Mae'r cyngor wedi penodi arweinydd portffolio newydd sydd â phrofiad mewn gofal cymdeithasol. Bydd yr arweinydd portffolio newydd yn aelod o gabinet y cyngor a gallai hyn gyfrannu tuag at roi proffil corfforaethol uwch i'r gwasanaethau

cymdeithasol.   Gallai strwythur newydd y cyngor, ar sail cabinet, arwain at wneud penderfyniadau a fydd yn caniatáu ar gyfer rhoi cynlluniau, megis strategaethau comisiynu a moderneiddio'r cyngor, ar waith yn brydlon.

Mae'r cyngor wedi sefydlu cynllun tair blynedd.  Mae'r cynllun yn rhoi cyfeiriad i ddatblygiadau yn y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r cyngor wedi sefydlu perthynas gyda'i ddarparwyr. Mae'r cyngor wedi cymryd camau sylweddol ymlaen o ran datblygu'r ymgysylltiad gyda defnyddwyr gwasanaeth.  Mae'r strategaeth ymgysylltu yn cynnwys cynnal cynadleddau a sioeau teithio, a defnyddio holiaduron a gwasanaethau eirioli.  Ceir cynllun ymgysylltu bellach ar gyfer pob datblygiad sylweddol, a gwelir tystiolaeth o hyn yn strategaethau comisiynu'r cyngor a baratowyd yn ystod 2011-12.

Mae adroddiad blynyddol y cyngor yn nodi y cafwyd cefnogaeth ddiflino gan arweinydd y portffolio ar gyfer cynlluniau'r cyngor. Mae'r adroddiad yn nodi bod mwy a mwy o angen gwneud trefniadau i ddarparu gofal cymdeithasol priodol yn yr hinsawdd ariannol bresennol.  Mae'r adroddiad yn nodi bod oedi wrth wneud trefniadau yn cynyddu'r risg y bydd y cyngor yn methu â darparu gwasanaethau cynaliadwy ac yn methu â chyflawni ei gynlluniau ariannol ei hun.

Mae gan Gyfarwyddwr newydd y gwasanaethau cymdeithasol brofiad o redeg rhai gwasanaethau cymdeithasol rheng flaen, ond nid y cyfan. Ceir risg na fydd gan Gyfarwyddwr newydd ddealltwriaeth o feysydd o risg sylweddol. Bydd yr hyfforddiant, y mentora a'r gefnogaeth barhaus y mae'r cyngor wedi'u sefydlu yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol y Cyfarwyddwr yn cael eu cyflawni.

**Meysydd i'w gwella**

- Sicrhau y rhoddir y cynlluniau comisiynu ar waith yn brydlon.
- Sicrhau bod dyletswyddau statudol y Cyfarwyddwr yn cael eu cyflawni.